Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu'r GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

National Safeguarding Service
NHS Safeguarding for a Safer Wales

Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl Mewn Plentyndod (PRUDiC) 2023

Awdur:

Dr Claire Thomas

Meddyg Dynodedig, Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)

nss@wales.nhs.uk Chwefror 2023

Mewn cydweithrediad â:

Dyddiad adolygu: 2026

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Marwolaeth Annisgwyl Plentyn

3 Plant a Chynllun Gofa Pediatrig Ymlaen Liaw (PAC) Cymru Gyfan

4 Marwolaeth Ddisgwyliedig Plentyn

5 Pan fydd Plentyn yn Marw'n Annisgwyl Mewn Ardal Arall

6 Rhoi Organau a Meinweoedd 11

7 Marwolaethau Annisgwyl Newyddanedigion 12

8 Marwolaethau Annisgwyl ar Uned Gofal Critigol Pediatrig (PCCU) 13

9 Pobl ifanc 16 ac 17 Oed sy'n Derbyn Gofal yn Adrannau Oedolion y Bwrdd Iechyd 14

10. Hunanladdiad 15

11 Anghytundeb ar Gychwyn y Broses PRUDiC 16

12 Roi Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) 17

13. Roi yr Heddlu - Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu (S1O) 18

14 Roi Gofal Cymdeithasol Plant 20

15. Roi Gweithwyr Iechyd Proffesiyno 21

15.1 Gweithiwr Allweddol yr Adran Achosion Brys 21

15.2 Pediatregydd Ymgynghorol 21
(neu feddyg gyda'r hyfforddiant a'r cymhwysedd priodol)

15.3 Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd 23

15.4 Y Fydwraig Enwebedig ar gyfer Diogelu Plant 23

15.5 Y Meddyg Teulu 23

15.6 Y Patholegydd (Gweler 18.8) 24

16 Yr Archwilydd Meddygol Annibynnol 24

17 Roi y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbartho 25

18 Llinell amser PRUDIC 26

18.7 Cam 1: Y Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio (i'w gynnal o fewn 2 ddiwrnod gwaith) 27

18.8 Cam 1: Y Patholegydd a'r Archwiliad Post-Mortem 29

18.9 Cam 2: Y Cyfarfod Trafod Achos (O fewn 5-28 Diwrnod) 31

18.10 Cam 3: Y Cyfarfod Adolygu Achos (O fewn 12 mis) 32

19 Cefnogi Teuluoedd mewn Profedigaeth 34

20. Cefnogi Staff 35

21 Siart Llif y Broses 36

Atodiad 1: Siarad a Rhieni mewn Profedigaeth 40

Atodiad 2: Ffynonellau Cymorth i Deuluoedd 41

Atodiad 3: Profforma ar gyfer Hanes ac Archwiliad Corfforol y Plentyn 42

Atodiad 4: Rhestr Wirio Archwilio Lleoliad y Farwolaeth ar gyfer Babanod a Phlant o dan 24 mis 53

Atodiad 5: Ffurflen Hysbysu am Farwolaeth Plentyn 57

Atodiad 6: Templed Crynodeb o Achos 64

Atodiad 7: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru 68

Atodiad 8: Roi yr Heddlu 71

Atodiad 9: Roi Crwner EF yn y PRUDiC 72

Atodiad 10: Adnoddau 73

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r weithdrefn hon yn gosod safon ofynnol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl mewn babandod a phlentyndod. Mae'n disgrifio'r broses o gyfathrebu, gweithredu ar y cyd a rhannu gwybodaeth yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn.

1.2 Bydd yr ymateb gweithdrefnol hwn yn cael ei ddilyn pan fydd penderfyniad wedi'i wneud gan yr Heddlu bod marwolaeth plentyn yn annisgwyl a bod yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC) i gael ei gychwyn (gweler Adran 3).

1.3 Nod y PRUDiC yw sicrhau bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i'r rhai dan sylw, a bod unffurfiaeth ledled Cymru yn yr ymateb aml-asiantaeth i farwolaethau annisgwyl plant.

1.4 Mae hwn yn ymateb gweithdrefnol aml-asiantaeth gyda'r bwriad o sicrhau safon ofynnol ledled Cymru ac nid yw'n benodol i asiantaeth neu ddisgyblaeth. Mae'n amlinellu'r hyn sydd angen ei gyflawni ac yn rhoi awgrymiadau bras am rolau asiantaethau. Dylid cofnodi unrhyw amrywiad ynghyd â'r rhesymeg dros wyro oddi wrth y broses. Nid yw'r canllawiau'n gwahardd unrhyw arfer da presennol gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol i wella'r ymateb gweithdrefnol hwn.

1.5 Mae'r ymateb gweithdrefnol yn nodi strwythur y gellir ei ddefnyddio i wneud dyfarniadau rhesymegol wrth werthuso marwolaeth annisgwyl plentyn ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael. Mae'n bwysig felly bod yr holl staff yn cadw meddwl agored wrth ystyried unrhyw farwolaeth a'u bod yn osgoi dod i gasgliadau amhriodol y tu allan i'r prosesau y cytunwyd arnynt.

1.6 Bydd yr ymateb gweithdrefnol ar ran Crwner Ei Fawrhydi (Crwner EF) yn cael ei gydlynu gan yr Heddlu. Mae'r PRUDiC yn cydnabod bod Crwneriaid EF yn swyddogion barnwrol annibynnol ac nid yw'n creu unrhyw hawliau, rhwymedigaethau na chyfyngiadau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol arnynt.

1.7 Hysbysir Crwner EF am bob marwolaeth plentyn sy'n anesboniadwy neu'n annaturiol cyn gynted ag y bydd y ffaith o farwolaeth wedi'i chadarnhau a rhoddir ystyriaeth i'r angen am ymchwiliad llawn gan yr Heddlu/Crwner EF, gan gynnwys cwest.

1.8 Mae gan Grwner EF ddyletswydd i gynnal ymchwiliad i unrhyw farwolaeth dreisgar neu annaturiol neu lle nad yw achos y farwolaeth yn hysbys, i ganfod sut, pryd a ble y bu farw'r ymadawedig. Mae cwmpas PRUDiC yn ehangach na hyn a bydd y weithdrefn yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer pob marwolaeth annisgwyl plentyn p'un ai y gellir esbonio achos y farwolaeth ai peidio.

1.9 Bydd y Byrddau Diogelu Plant Rhanbarthol yn monitro'r prosesau PRUDiC a gychwynnir yn eu rhanbarthau ac yn sicrhau bod yr ymateb gweithdrefnol yn cael ei ddilyn hyd at ei gwblhau.

1.10 Bydd y Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant (CDRP) yn derbyn cofnodion PRUDiC ar ôl pob cyfarfod (y gall fod angen eu golygu yn ôl disgresiwn Cadeirydd y cyfarfod). Bydd hyn yn galluogi'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant i bennu patrymau a thueddiadau sy'n ymwneud â marwolaethau plant yng Nghymru a bydd yn llywio adolygiadau thematig i nodi cyfleoedd er mwyn atal achosion yn y dyfodol.

1.11 Bydd y Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant yn cynhyrchu adroddiadau sy'n disgrifio canfyddiadau ar batrymau a thueddiadau marwolaethau plant yng Nghymru yn ogystal ag Adolygiadau Cyflym i faterion sy'n peri pryder.

1.12 Bydd ysbytai yn cynnig 'Blwch Atgofion' i rieni sy'n cynnwys gwybodaeth a chymorth profedigaeth a chofroddion am eu plentyn, ac yn cynnig atgyfeiriad i 2Wish neu sefydliad cymorth arall fel y mae eu staff yn ei ystyried yn briodol.

1.13 Bydd Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd (neu ei gynrychiolydd) yn arwain ac yn cydlynu'r ymateb iechyd i PRUDiC gan gynnwys rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill.

1.14 Pan fydd plentyn yn marw'n annisgwyl, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn ystyried yr angen i'w adrodd fel Digwyddiad Adroddadwy yn Genedlaethol i Lywodraeth Cymru yn unol â'r Canllawiau 'Gweithio i Wella'.

1.15 Drwy gydol y weithdrefn hon, defnyddir y term 'Rhiant' i gyfeirio at unrhyw Riant neu Ofalwr, gan gynnwys personau â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu Orchymyn Trefniant Plant, Gofalwyr Maeth a'r Awdurdod Lleol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

2. Marwolaeth Annisgwyl Plentyn

2.1 Mae marwolaeth annisgwyl plentyn wedi'i diffinio fel:

'Marwolaeth plentyn na ragwelwyd ei fod yn bosibilrwydd sylweddol 24 awr cyn y farwolaeth neu lle bu cwymp annisgwyl tebyg yn arwain at neu'n achosi'r digwyddiadau a arweiniodd at y farwolaeth'.[1] ac fel:

'Marwolaeth plentyn lle nad oes unrhyw gyflwr blaenorol hysbys y gellid disgwyl iddo achosi'r farwolaeth bryd hynny, a bod y plentyn yn marw naill ai'n syth neu'n ddiweddarach o ganlyniad i'r digwyddiad neu gwymp'.[2]

Mae ail ran y diffiniad hwn yn arbennig o berthnasol pan fo oedi sylweddol rhwng cwymp y plentyn a'r farwolaeth yn y pen draw.

2.2 Mae'r PRUDiC yn berthnasol i bob marwolaeth plentyn o enedigaeth hyd at ei ben-blwydd yn 18 oed, boed o achosion naturiol, annaturiol, hysbys neu anhysbys, gartref, yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, hunanladdiadau ymddangosiadol a llofruddiaethau. Nid yw'n cynnwys;

- Marw-enedigaethau (Mae hyn yn enedigaeth ar neu ar ôl beichiogrwydd o 24 wythnos (168 diwrnod), lle **nad yw'r babi'n anadlu nac yn dangos unrhyw arwyddion eraill o fywyd**)
- Babanod newyddanedig lle'r oedd yr enedigaeth wedi digwydd yn yr ysbyty ac a fynychwyd gan weithiwr proffesiynol, nad oedd erioed wedi'i ryddhau i'r gymuned **a lle'r oedd y farwolaeth i'w disgwyl**. (Gweler adran 7).
- Y rhai â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd sy'n hysbys i'r Tîm Gofal Lliniarol **a lle'r oedd y farwolaeth i'w disgwyl**. (Gweler adran 3).

[1] Fleming et al.

[2] American Academy of Paediatrics

3. Plant sydd â Chynllun Gofal Pediatrig Ymlaen Llaw (PAC) Cymru Gyfan

3.1 Mae'n bosibl y bydd gan blant y gwyddys bod ganddynt gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd Gynllun PAC Cymru Gyfan ar waith. Dylai'r cynllun hwn hwyluso cyfathrebu aml-broffesiynol cyn ac o gwmpas adeg y farwolaeth os bydd y plentyn yn marw mewn ffordd ddisgwyliedig.

3.2 Efallai y bydd rhai plant y disgwylir iddynt farw yn dewis gofal lliniarol heb fod â Chynllun PAC Cymru Gyfan. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir cysylltu â'r Ymgynghorydd ar gyfer Gofal Lliniarol Plant am gyngor drwy switsfwrdd Ysbyty Athrofaol Cymru (029 2074 7747) ar unrhyw adeg.

3.3 Os bydd plentyn sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yn marw mewn ffordd annisgwyl, yna **bydd** PRUDIC **yn** berthnasol.

3.4 Mae'r diffiniadau o farwolaethau annisgwyl plant â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yr un fath â'r rhai y cyfeirir atynt yn 2.1.

4. Marwolaeth Ddisgwyliedig Plentyn

4.1 **Mae'n rhaid i** farwolaethau disgwyliedig plant nad ydynt yn destun PUDiC gael eu hysbysu i'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant gan y meddyg sy'n cadarnhau y ffaith o farwolaeth (gweler y Ffurflen Hysbysu am Farwolaeth Plentyn Atodiad 5).

4.2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â'r plentyn ddarparu gofal a chymorth profedigaeth cychwynnol i'r teulu, a dylid hysbysu'r teulu ar adeg briodol am y Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant.

5. Pan fydd Plentyn yn Marw'n Annisgwyl mewn Ardal Arall

5.1 Pan fydd plentyn yn marw yng Nghymru, ond y tu allan i'w ardal breswyl arferol yng Nghymru, **lle bynnag y bo'n ymarferol,** bydd y PRUDiC yn digwydd yn ardal yr Heddlu lle mae'r plentyn yn byw fel arfer.

5.2 Pan fydd plentyn yn marw yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ond fel arfer yn preswylio yng Nghymru, dylid dilyn y broses PRUDiC fel arfer yn yr ardal lle mae'r plentyn yn byw ynddi fel arfer a dylid rhannu gwybodaeth berthnasol gan Heddlu Cymru â'r hyn sy'n cyfateb ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

5.2.1 Dylai'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant perthnasol yn Lloegr (https://www.gov.uk/government/publications/child-deathOverview-panels-contacts), Canolfan Genedlaethol yr Alban ar gyfer Adolygu a Dysgu o Farwolaethau Plant a Phobl Ifanc a Chanolfan Genedlaethol Gogledd Iwerddon ar gyfer Adolygu a Dysgu o Farwolaethau Plant a Phobl Ifanc (pan fydd wedi'i sefydlu) hysbysu'r Pennaeth Diogelu yn y Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn yr ardal lle mae'r plentyn yn byw. Bydd y pennaeth yn cysylltu â chydweithwyr perthnasol yn yr Heddlu a'r awdurdod lleol i benderfynu a dylid cynnal PRUDiC.

5.2.2 Os penderfynir peidio â chynnal PRUDiC, yna dylai'r sgwrs hon hefyd gynnwys pa gymorth sydd ei angen ar y teulu a'r gymuned ehangach a dylid gwneud atgyfeiriadau am gymorth.

5.2.3 Dylid rhannu cofnodion cyfarfod PRUDiC (wedi'u golygu os oes angen yn ôl disgresiwn y cadeirydd) â'r rhaglen adolygu marwolaethau plant berthnasol lle bu farw'r plentyn ac yn yr un modd, dylid rhannu cofnodion Proses Adolygu Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon â CDRP Cymru.

5.3 Os bydd plentyn yn marw yng Nghymru, bydd y PRUDiC yn cael ei weithredu hyd yn oed os yw'r plentyn fel arfer yn byw mewn gwlad heblaw am Gymru.

5.3.1 Dylai Pennaeth Diogelu yn y Bwrdd Iechyd yng Nghymru lle bu farw'r plentyn hysbysu'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant perthnasol yn Lloegr[3] (https://www.gov.uk/government/publications/childdeath-overview-panels-contacts), Canolfan Genedlaethol yr Alban ar gyfer Adolygu a Dysgu o Farwolaethau Plant a Phobl Ifanc a Chanolfan Genedlaethol Gogledd Iwerddon ar gyfer Adolygu a Dysgu o Farwolaethau Plant a Phobl Ifanc (pan fydd wedi'i sefydlu).

5.3.2 Dylid rhannu cofnodion cyfarfod PRUDiC (wedi'u golygu os oes angen yn ôl disgresiwn y cadeirydd) â'r rhaglen adolygu marwolaethau plant berthnasol lle bu farw'r plentyn ac yn yr un modd, dylid rhannu cofnodion Proses Adolygu Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon â CDRP Cymru.

[3] https://www.gov.uk/government/publications/child-death-overview-panels-contacts

5.4 Dylai Byrddau Iechyd sy'n anfon plant yn rheolaidd i ysbytai yn Lloegr ar gyfer gofal eilaidd/trydyddol sicrhau bod yr ysbytai hynny'n ymwybodol o'r broses PRUDiC fel bod eu Pennaeth Diogelu yn gallu cael gwybod ar unwaith pan fydd plentyn o Gymru'n marw a bod y broses PRUDiC yn cael ei rhoi ar waith.

5.5 Pan gânt eu hysbysu am farwolaeth dramor, bydd gweithwyr proffesiynol yn yr ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer yng Nghymru yn ystyried rhoi'r weithdrefn hon ar waith i'r graddau sy'n ymarferol bosibl ac yn cofnodi unrhyw benderfyniadau a wneir yn llawn.

5.5.1 Os penderfynir peidio â chynnal PRUDiC, dylai'r sgwrs hon hefyd gynnwys pa gymorth sydd ei angen ar y teulu a'r gymuned ehangach a dylid gwneud atgyfeiriadau am gymorth.

6. Rhoi Organau a Meinweoedd

6.1 Mae rhoi organau a meinweoedd yn rhan arferol o ofal diwedd oes.

Ym **mhob** achos - dylai'r meddyg sy'n asesu gysylltu â'r Llinell Atgyfeirio Rhoi Organau 24-awr i drafod hyn: 03000 203040

7. Marwolaethau Annisgwyl Newyddanedigion

7.1 Ar gyfer y babanod newydd-anedig hynny lle nad oedd y farwolaeth yn ddisgwyliedig 24 awr cyn y farwolaeth ac nad oedd y farwolaeth o ganlyniad i gymhlethdod newyddenedigol cydnabyddedig, yna dylid cynnal trafodaeth rhwng y Neonatolegydd Ymgynghorol/Pediatregydd (neu'r meddyg â hyfforddiant priodol) a'r Pennaeth Diogelu/Bydwraig Enwebedig (a'r Heddlu/Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl yr angen) i benderfynu a ddylid dilyn y broses PRUDiC. Er ei bod yn bwysig peidio â dyblygu prosesau marwolaethau eraill sy'n rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd, mae'n bwysig gallu adnabod y marwolaethau annisgwyl anesboniadwy hynny lle y gallai niwed fod wedi digwydd.

Weithiau gall marwolaeth fod o gymhlethdod newyddenedigol cydnabyddedig, ond nad oedd hynny wedi'i ddisgwyl gyda'r plentyn neilltuol hwn. I'r gwrthwyneb, gellir disgwyl marwolaeth 24 awr cyn y farwolaeth, ond gall yr achos/digwyddiad sylfaenol fod wedi digwydd rhai dyddiau neu hyd yn oed wythnosau ynghynt ac efallai ei fod wedi bod yn annisgwyl. Mewn achosion o'r fath, dylid ystyried cychwyn y broses PRUDiC trwy drafod gyda'r Neonatolegydd/Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg gyda hyfforddiant priodol) a'r Pennaeth Diogelu/Bydwraig Enwebedig ar gyfer Diogelu (a'r Heddlu/Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl yr angen).

7.2 Y Pennaeth Diogelu fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cysylltu â'r partneriaid amlasiantaethol priodol gan fod ganddynt wybodaeth ymarferol am y broses PRUDiC a'r cysylltiadau mwyaf priodol o fewn asiantaethau eraill.

8. Marwolaethau Annisgwyl ar Uned Gofal Critigol Pediatrig (PCCU)

8.1 Mae marwolaeth annisgwyl plentyn wedi'i diffinio fel:

> "Marwolaeth plentyn na ragwelwyd ei fod yn bosibilrwydd sylweddol 24 awr cyn y farwolaeth neu lle bu cwymp annisgwyl tebyg yn arwain at neu'n achosi'r digwyddiadau a arweiniodd at y farwolaeth".
>
> "Marwolaeth plentyn lle nad oes unrhyw gyflwr blaenorol hysbys y gellid disgwyl iddo achosi'r farwolaeth bryd hynny, a bod y plentyn yn marw naill ai'n syth neu'n ddiweddarach o ganlyniad i'r digwyddiad neu gwymp".

8.2 Os oes pryderon nad oes angen cyfarfod PRUDiC ar gyfer unrhyw glaf ar PCCU yna mae angen cynnal trafodaeth rhwng y Pennaeth Diogelu, yr Heddlu, Gofal Cymdeithasol a'r PCCU i drafod unrhyw faterion er mwyn eu galluogi i ddod â'r broses i ben ar gyfer y plentyn hwn. Os oes unrhyw bryderon ynglŷn ag achos y farwolaeth, yna dylid cychwyn prosesau PRUDiC.

8.3 Bydd Adran 2.1 o'r canllawiau PRUDiC yn cael ei hystyried ym mhob achos. Os yw plentyn wedi bod yn derbyn gofal mewn PCCU am fwy na 24 awr, bydd angen trafod hyn ymhellach fel yr uchod.

9. Pobl Ifanc 16 a 17 Oed sy'n Derbyn Gofal yn Adrannau Oedolion y Bwrdd Iechyd

9.1 Mae PRUDiC yn berthnasol i bob marwolaeth annisgwyl mewn plant dan 18 oed. Os bydd plentyn yn cael ei dderbyn neu'n derbyn gofal mewn adran i oedolion ac yn marw, yna dylid rhoi'r weithdrefn PRUDiC ar waith. Os nad yw'r tîm yn gyfarwydd â'r broses, yna dylid cysylltu â'r Pennaeth Diogelu (neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant/yr Heddlu) am gyngor.

10. Hunanladdiad

10.1 Lle credir bod plentyn wedi marw o ganlyniad i'r hyn a amheuir i fod yn hunanladdiad, dylid dilyn y broses PRUDiC fel arfer. Fodd bynnag, pan fydd y CDRP yn cael ei hysbysu, bydd yn cael ei drosglwyddo'n awtomatig i'r rhaglen System Arolygu Hunanladdiad Amser Real (RTSSS) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid oes angen cyflwyno hyn i'r RTSSS yn ychwanegol.

10.2 Os canfyddir plentyn â rhaff o amgylch y gwddf sy'n dal i fod yn ei le ac nad yw'n bosibl ei dynnu, dylai WAST sicrhau bod yr adran achosion brys sy'n derbyn yn ymwybodol o'r sefyllfa.

10.3 Wrth archwilio'r corff, mae'n bwysig nad yw'r meddyg sy'n archwilio yn gwneud disgrifiadau y tu allan i'w faes arbenigedd megis disgrifio marciau fel "marciau cwlwm", ond yn hytrach dylai ddisgrifio'r hyn a welir.

Dylid cychwyn gwasanaethau cymorth a phrofedigaeth priodol fel gyda phob achos PRUDiC.

10.4 Datblygwyd yr adnodd 'Cymorth wrth Law' yn benodol ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt gan farwolaeth oherwydd yr hyn a amheuir i fod yn hunanladdiad: Tudalennau Cymorth Wrth Law – SSHP GIG

11. Anghytundeb ar Gychwyn y Broses PRUDiC

11.1 Os oes anghytundeb ynglŷn ag a ddylid cychwyn y broses PRUDiC yn dilyn marwolaeth plentyn, yna mae angen cynnal trafodaeth rhwng y Pennaeth Diogelu, yr Heddlu, Pediatregydd (neu feddyg â hyfforddiant priodol) a Gofal Cymdeithasol i drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r farwolaeth. Os oes unrhyw bryderon ynghylch achos marwolaeth, yna dylid cychwyn prosesau PRUDiC.

12. Rôl Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)

12.1 Bydd y Gwasanaethau Brys yn dilyn eu protocolau eu hunain. Ar gyfer Ymddiriedolaeth WAST gweler Atodiad 7.

12.2 Hyd yn oed os yw'r plentyn yn amlwg wedi marw ac na cheisir ei ddadebru, dylai WAST gludo'r corff i'r Adran Achosion Brys priodol agosaf.

12.3 Pan fydd rhiant yn rhoi genedigaeth yn y gymuned ac mae'r babi'n marw, dylid mynd â'r fam a'r babi mewn ambiwlans i'r Uned Famolaeth agosaf lle gall y babi gael ei archwilio gan Neonatolegydd neu Bediatregydd a lle gellir cefnogi'r fam.

12.4 Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen cludo'r plentyn yn syth i'r Corffdy os yw cyflwr y corff yn golygu y byddai'n amhriodol mynd â'r plentyn i'r Adran Achosion Brys e.e. y pen wedi'i dorri, y corff wedi'i losgi neu ddadelfennu (bydd angen rhannu'r penderfyniad hwn gyda'r holl adrannau ac asiantaethau perthnasol). Fodd bynnag, dylid mynd â phob plentyn arall sydd wedi marw i'r Adran Achosion Brys i gael ei archwilio gan Bediatregydd (neu feddyg â'r hyfforddiant a'r cymhwysedd priodol).

12.5 Os yw'r plentyn yn amlwg wedi marw **A** bod amgylchiadau amheus lle gallai symud y plentyn o'r lleoliad amharu ar y dystiolaeth, bydd WAST yn gadael y plentyn yn y fan a'r lle ac yn hysbysu'r Heddlu (os nad ydynt eisoes yno).

12.6 Bydd personél Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ystyried yr angen i adrodd (fel Digwyddiad Adroddadwy yn Genedlaethol) i Lywodraeth Cymru yn unol â Chanllawiau 'Gweithio i Wella'.

13. Rôl yr Heddlu – Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu (SIO)

13.1 Bydd y Gwasanaethau Brys yn dilyn eu protocolau eu hunain. Ar gyfer yr Heddlu, gweler Atodiadau 3, 4 ac 8.

13.2 Pan fydd plentyn yn marw'n annisgwyl, bydd Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu yn cael ei benodi a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am reoli adnoddau'r Heddlu ac am sicrhau y dilynir trywydd ymholi priodol a chymesur. Penodir Uwch Swyddogion Ymchwilio yn unol â Pholisi'r Heddlu a chan ystyried Canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC). Ar gyfer marwolaethau ar y ffyrdd, bydd cyfrifoldebau'r Uwch Swyddog Ymchwilio yn cael eu cyflawni gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio i Farwolaethau Ffyrdd.

13.3 Lle bo amgylchiadau'n awgrymu y byddai presenoldeb yn y lleoliad o fudd i'r ymholiad, bydd Swyddog Ditectif profiadol yn mynd i'r lleoliad ar unwaith. Lle bo posibilrwydd o gam-drin plant, mae'n hanfodol bod gan y Swyddog Ditectif brofiad amddiffyn plant neu bod y Swyddog yn cysylltu â chydweithiwr sydd â phrofiad amddiffyn plant. Dylai Uwch Swyddogion Ymchwilio gofio efallai na fydd unrhyw amgylchiadau amheus amlwg ac y gallai presenoldeb swyddogion neu staff â phrofiad priodol dal fod o fudd i'r ymholiad. Mae hyn yn wir os yw'r plentyn yn dal yn y lleoliad **neu** os yw'r plentyn wedi'i symud i'r Ysbyty. (Cyfeiriwch at atodiad 4: Rhestr Wirio Lleoliad y Farwolaeth). Penderfyniad yr heddlu yw a fydd corff yn aros yn y lleoliad i gael ei archwilio ymhellach yn hytrach na'i drosglwyddo i'r ysbyty ar unwaith.

13.4 Rhaid i'r heddlu sicrhau bod y Nyrs sy'n Gyfrifol yn yr Adran Achosion Brys yn cael gwybod am y farwolaeth os bydd y plentyn yn cael ei gludo'n uniongyrchol i'r marwdy.

13.5 Anaml iawn y bydd heddwas mewn lifrai y person cywir i fod yn rhan o'r hanes/archwiliad ar y cyd oni bai bod ganddo brofiad perthnasol diweddar.

Dylai'r heddwas sy'n mynychu'r archwiliad ar y cyd fod yn Dditectif Swyddog PIP2 o leiaf gyda phrofiad a/neu hyfforddiant perthnasol; neu dylai fod yn rhywun sydd wedi'i ddirprwyo i gyflawni'r dasg honno gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio penodedig.

13.6 Gall Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu benodi Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC) yr Heddlu i gynorthwyo gyda chyfathrebu rhyngasiantaethol. P'un ai yw'r farwolaeth yn ymddangos yn un amheus ai peidio, **gall** yr Heddlu benodi Swyddog Cyswllt Teuluol (FLO) pa bryd bynnag y bydd yr Uwch Swyddog Ymchwilio yn barnu bod hynny'n briodol. Nid yw FLO o reidrwydd yn cael ei benodi ar gyfer pob marwolaeth annisgwyl.

13.7 Bydd Ditectif Arolygydd neu Uwch Swyddog Uned Diogelu Pobl Agored i Niwed neu Swyddog Uned Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am gadeirio, cymryd a dosbarthu cofnodion pob cyfarfod a gynhelir drwy gydol y broses PRUDiC.

13.8 Yn y Cyfarfod Trafod Achos, bydd y Cadeirydd neu ei gynrychiolydd yn cwblhau y Ffurflen Hysbysu am Farwolaeth Plentyn (Atodiad 5) a'i hanfon ymlaen at Reolwr Busnes y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant.

13.9 Yn y Cyfarfod Adolygu Achos, bydd y Cadeirydd neu ei gynrychiolydd yn cwblhau'r Templed Crynodeb o Achos (Atodiad 6) ac yn ei anfon ymlaen at Reolwr Busnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant.

14. Rôl Gofal Cymdeithasol Plant

14.1 Bydd yr Heddlu yn hysbysu'r Rheolwr Diogelu Arweiniol yn yr adran Gofal Cymdeithasol Plant am unrhyw farwolaeth annisgwyl plentyn yn ardal eu Hawdurdod Lleol.

14.2 Bydd y Rheolwr Diogelu Arweiniol yn yr adran Gofal Cymdeithasol Plant yn:-

- Cysylltu ag asiantaethau eraill ac yn arwain y broses o gydgysylltu'r gwaith o gasglu gwybodaeth o fewn gofal cymdeithasol i'w rannu ledled y PRUDiC.
- Sicrhau cyswllt llawn gyda'r Heddlu os bydd y farwolaeth yn amheus. (Os felly, bydd Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu yn penderfynu pa wybodaeth a ddatgelir i'r rhieni a sut).
- Sicrhau bod y risg i unrhyw frodyr a chwiorydd neu blant eraill yn cael ei hasesu fel blaenoriaeth ar dderbyn hysbysiad o farwolaeth annisgwyl plentyn.
- Sicrhau bod Uned Fusnes y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yn cael gwybod am farwolaeth y plentyn.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o Ofal Cymdeithasol Plant yn bresennol ym mhob cyfarfod drwy gydol y broses PRUDiC.
- Sicrhau bod unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant neu gamau diogelu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant a allai godi yn ystod y broses PRUDiC yn cael eu cwblhau.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i unrhyw weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n anghyfarwydd â'r broses PRUDiC, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Oedolion.

15. Rôl Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

15.1 Gweithiwr Allweddol Adran Achosion Brys

Yn syth ar ôl iddynt gyrraedd yr Ysbyty, **dylid** neilltuo aelod o staff i'r teulu i ofalu amdanynt, egluro beth sy'n digwydd a darparu cyfleusterau iddynt gysylltu ag aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau a chynnig cymorth diwylliannol neu grefyddol iddynt. Cyn iddynt adael yr adran, mae'n rhaid rhoi manylion clir i'r teulu o ran pwy i gysylltu â nhw yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau gwaith os oes ganddynt gwestiynau neu bryderon.

15.2 Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol)

Ar ôl cyrraedd yr Adran Achosion Brys, bydd meddyg, y Pediatregydd Ymgynghorol fel arfer, yn mynd at y plentyn, ond **gall** hwn fod yn feddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol. Unwaith y bydd y farwolaeth wedi'i chadarnhau, bydd y Meddyg yn gyfrifol am y canlynol:

- Archwilio corff y plentyn. Dylid gwneud hyn gyda'r Heddlu'n bresennol, ond ni ddylid gohirio'r archwiliad hwn os nad yw'r Heddlu ar gael eto (fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, mae'n debygol y bydd angen ail-archwilio gyda'r Heddlu unwaith y byddant yn bresennol).
- Archwiliad post-mortem o'r llygaid:
- Dylid ceisio archwilio llygaid babanod yn unol â datganiad sefyllfa ar y cyd y Coleg Brenhinol (Ionawr 2022)[4] gyda'r dealltwriaeth nad yw peidio ag adnabod gwaedlif ar y retina yn golygu nad ydynt yn bresennol, mae'n golygu'n syml nad ydynt wedi'u gweld.
    - Mae'n hynod bwysig bod llygaid y plentyn yn cael eu harchwilio cyn gynted â phosibl ar ôl unrhyw farwolaeth anesboniadwy ac felly gall unrhyw uwch glinigwr wneud hyn. Mae'n debygol mai Pediatregydd (neu feddyg â'r hyfforddiant a'r cymhwysedd priodol) fyddai hwn.
    - Pan fo'n ymarferol a lle gall archwiliad cyflym ddigwydd, gall yr uwch glinigwr gysylltu ag offthalmolegydd, **gan ddilyn protocolau y cytunwyd arnynt yn lleol**.
    - Y disgwyl yw bod y clinigwr yn cofnodi'r hyn y mae'n bosibl ei weld, gan gynnwys presenoldeb neu absenoldeb gwaedlifau'r retina ym mhob llygad, ynghyd ag amod ynglŷn â graddau eu harbenigedd ac nad yw'n gallu gwneud unrhyw sylw ar ddehongliad yr arwyddocâd. Bydd gweithwyr proffesiynol eraill yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i lywio'r camau mwyaf priodol i'w cymryd nesaf yn y broses o ymchwilio i farwolaeth y plentyn.

[4] https://www.rcpch.ac.uk/news-events/news/joint-statement-eye-examination-sudden-unexpected death-children

- Gall canfod gwaedlifau ar y retina yn syth ar ôl marwolaeth, yn enwedig lle nad oes unrhyw nodweddion amlwg eraill sy'n peri pryder bod marwolaeth annaturiol wedi digwydd, arwain at broses post-mortem fforensig ffurfiol. Yn bwysig, bydd hyn yn cynnwys penodi patholegydd fforensig i berfformio'r awtopsi a chychwyn ar y broses sy'n amddiffyn unrhyw frodyr a chwiorydd sy'n dal yn fyw.

- Cymryd hanes llawn gan y rhieni. Dylid gwneud hyn gyda'r Heddlu'n bresennol ond ni ddylid oedi os nad yw'r Heddlu ar gael eto (efallai y bydd angen ailadrodd yr elfennau pan fydd yr Heddlu'n bresennol). (Gweler Atodiad 3).

- Mae **rhoi organau a meinweoedd** yn rhan arferol o ofal diwedd oes. Ym **mhob** achos – dylai'r meddyg sy'n asesu gysylltu â'r Llinell Atgyfeirio Rhoi Organau 24-awr i drafod hyn: 03000 203040

- Sicrhau bod Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd a Meddyg Teulu'r plentyn yn cael gwybod am y farwolaeth **cyn gynted â phosibl** ac **erbyn y diwrnod gwaith nesaf fan bellaf.**

- Darparu adroddiad llawn ar yr hanes a'r canfyddiadau ffisegol yn y cyflwyniad i Grwner EF a Phatholegydd.

- Dogfennu'n llawn unrhyw samplau a gymerwyd o'r plentyn cyn y farwolaeth, gan ddarparu'r canlyniadau sydd ar gael i'r Patholegydd a chofnodi'r canlyniadau sy'n dal i fod heb eu derbyn wrth ei drosglwyddo i'r corffdy.

- Ceisio cyngor gan y Patholegydd ynghylch samplu os yw'r hanes neu'r archwiliad yn awgrymu anhwylder metabolig. (Nid oes angen i'r Meddyg gymryd unrhyw samplau eraill o'r corff). Gall fod yn haws adnabod clefydau genetig/metabolaidd pan gymerir biopsi croen yn gynnar, a dylid trafod hyn gyda'r Patholegydd.

- Rhoi gwybod i'r rhieni am y broses PRUDiC.

- Mynychu'r Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio.

- Mynychu'r Cyfarfod Trafod Achos (5-28 diwrnod). Gyda chytundeb y Cadeirydd ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac ar gwrs unrhyw ymchwiliad troseddol, **gall** y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg gyda hyfforddiant a chymhwysedd priodol) ysgrifennu llythyr at y rhieni yn dilyn y cyfarfod hwn yn cynnig cwrdd â nhw i drafod y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â marwolaeth y plentyn ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Naill ai'r Pediatregydd Ymgynghorol (neu'r meddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol) neu dîm clinigol arferol y plentyn fydd yn bresennol.

15.3 Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol sy'n anghyfarwydd â'r broses PRUDiC, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Oedolion.
- Cysylltu ag asiantaethau eraill ac yn arwain y broses o gydgysylltu'r gwaith o gasglu gwybodaeth ym maes Iechyd i'w rannu drwy gydol y PRUDiC.

- Bydd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau lle ceir anghytundeb ynghylch a ddylai PRUDiC ddigwydd ar y cyd â'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sicrhau cyswllt llawn gyda'r Heddlu os bydd y farwolaeth yn amheus. (Os felly, bydd Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu yn penderfynu pa wybodaeth a ddatgelir i'r rhieni a sut).
- Ystyried yr angen i adrodd (fel Digwyddiad Adroddadwy yn Genedlaethol) i Lywodraeth Cymru yn unol â Chanllawiau 'Gweithio i Wella'.

NODER: Cydnabyddir y gall y Pennaeth Diogelu ddewis dirprwyo rhai neu'r holl gyfrifoldebau hyn i aelod arall o'r Bwrdd Iechyd/Tîm Diogelu Plant yr Ymddiriedolaeth.

15.4 Y Fydwraig Enwebedig ar gyfer Diogelu Plant

- Mae'r Fydwraig Enwebedig ar gyfer Diogelu yn fydwraig gofrestredig sydd wedi cael hyfforddiant diogelu penodol ac sy'n arwain ar faterion diogelu mewn lleoliadau mamolaeth.
- Byddant yn cael eu hysbysu, ac yn cyfrannu at y broses PRUDiC, os bydd plentyn yn marw'n annisgwyl cyn cyrraedd 28 diwrnod oed.[1]

15.5 Y Meddyg Teulu

- Bydd yn cael ei hysbysu'n llawn am farwolaeth annisgwyl plentyn sydd wedi'i gofrestru â'i feddygfa gan y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol) i sicrhau bod Meddygon Teulu yn cael eu rhybuddio ymlaen llaw os bydd teulu'r plentyn yn cysylltu â nhw am gymorth.
- Bydd yn ymgynghori â chofnodion aelodau teulu agos hysbys i weld a ydynt yn agored i niwed penodol ac yn cymryd camau priodol, e.e. hysbysu Iechyd Meddwl Oedolion neu wasanaethau eraill sy'n ymwneud â rhieni.
- Bydd yn cael ei wahodd i fynychu'r Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio, Cyfarfod Trafod Achos a Chyfarfod Adolygu Achos a bydd yn derbyn yr holl gofnodion.
- Os yw'n methu â mynychu unrhyw gyfarfod, bydd y Meddyg Teulu yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol am y plentyn neu aelodau eraill o'r teulu/aelwyd gyda Phennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd cyn y cyfarfod.
- Ystyried yr angen i adrodd (fel Digwyddiad Adroddadwy yn Genedlaethol) i Lywodraeth Cymru yn unol â Chanllawiau 'Gweithio i Wella'.

Dylai'r Practis Cyffredinol gysylltu â'r teulu i gydymdeimlo a chynnig cefnogaeth.

15.6 **Y Patholegydd** (gweler 18.8)

[1] Diogelu Plant a Phobl Ifanc: Rolau a Chymwyseddau ar gyfer Staff Gofal Iechyd: Dogfen Ryng-golegol. Ionawr 2019

16. Yr Archwilydd Meddygol Annibynnol

Lletyir y Gwasanaeth Archwilio Meddygol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) a bydd yn craffu'n annibynnol ar yr holl farwolaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio gan y crwner. Gwneir y craffu gan Archwilydd Meddygol, sy'n feddyg profiadol sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol mewn ardystio marwolaethau ac adolygu amgylchiadau marwolaethau sydd wedi'u dogfennu. Bydd yn sicrhau bod achos marwolaeth cywir wedi'i gofnodi, yn nodi unrhyw bryderon ynghylch y farwolaeth ei hun y gellir ymchwilio ymhellach iddynt os bydd angen, ac yn ystyried barn y rhai sydd mewn profedigaeth. Felly, efallai y bydd ganddynt ddiddordeb neu'n cyfrannu at y broses PRUDiC.[2]

[2] https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaeth-archwilio-meddygol/

17. Rôl y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol

17.1 Bydd Rheolwr Uned Fusnes y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yn:

- Cael gwybod gan Reolwr Diogelu Arweiniol Gofal Cymdeithasol Plant am unrhyw farwolaeth annisgwyl plentyn sy'n digwydd yn eu rhanbarth.
- Derbyn y Ffurflen Hysbysu am Farwolaeth Plentyn (Atodiad 5) gan yr Heddlu yn dilyn y Cyfarfod Trafod Achos a darparu gwybodaeth berthnasol am yr holl farwolaethau annisgwyl plant i Is-grŵp Rheoli Adolygu Ymarfer Plant y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.
- Derbyn Templed Crynodeb o Achos (Atodiad 6) gan yr Heddlu yn dilyn y Cyfarfod Adolygu Achos.
- Monitro cynnydd pob proses PRUDiC a sicrhau y bodlonir amserlenni. Bydd unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd.

17.2 Bydd yr Is-grŵp Rheoli Adolygiadau Ymarfer Plant yn:

- Derbyn yr wybodaeth berthnasol gan Uned Fusnes y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ac yn ystyried a yw'r farwolaeth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) neu Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) a phenderfynu a ddylid gwneud argymhelliad i Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol y Bwrdd Diogelu Plant.

18. Llinell Amser PRUDiC

18.1 Mae llinell amser PRUDiC yn cynnwys tri cham:

- Cam un (0-5 diwrnod fel arfer): Rheoli rhannu gwybodaeth, gan gynnwys y **Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio**, o'r pwynt y daw marwolaeth y plentyn yn hysbys i unrhyw asiantaeth hyd nes y bydd yr archwiliad post-mortem cychwynnol wedi'i gwblhau.

- Cam dau (5-28 diwrnod fel arfer): Rheoli rhannu gwybodaeth, gan gynnwys y **Cyfarfod Trafod Achos**, unwaith y bydd canlyniadau rhagarweiniol yr archwiliad post-mortem ar gael.

- Cam tri (fel arfer o fewn 12 mis): Rheoli rhannu gwybodaeth, gan gynnwys y **Cyfarfod Adolygu Achos**, pan fydd yr Adroddiad post-mortem terfynol ar gael.

18.2 Er mwyn hwyluso cyfranogiad gweithwyr proffesiynol allweddol mewn cyfarfodydd, gellir defnyddio fideo-gynadledda neu delegynadledda.

18.3 Mewn egwyddor, cydnabyddir y dylai pob asiantaeth rannu'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Fodd bynnag, gall yr Heddlu a Chrwner EF ystyried gwybodaeth benodol yn sub judice (h.y. dan ystyriaeth farnwrol ac felly wedi'i gwahardd rhag cael ei thrafod yn gyhoeddus yn rhywle arall) neu'n destun ymchwiliad parhaus a allai atal ei rhannu. Mewn rhai amgylchiadau gall hyn gynnwys canlyniadau rhagarweiniol a therfynol yr archwiliad post-mortem. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i'r wybodaeth a ryddheir o ymchwiliad yr Heddlu i'r cyfarfodydd hyn fod yn ddigon i roi gwybod am y materion perthnasol. Yn benodol, rhaid i wybodaeth a rennir roi sylw i les plant eraill yn y cartref a allai fod mewn perygl o niwed. Bydd yr egwyddor o oruchafiaeth yn berthnasol. Bydd unrhyw benderfyniad i beidio â rhannu gwybodaeth yn cael ei gofnodi gan Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu yn Llyfr Polisi'r Heddlu.

18.4 Nid yw'n arferol rhannu cofnodion cyfarfodydd gyda'r rhieni, fodd bynnag, yn achlysurol mae rhieni wedi gofyn am gopïau o gofnodion cyfarfodydd. Bydd y penderfyniad i rannu cofnodion yn ôl disgresiwn yr Heddlu a fydd yn gallu ystyried unrhyw gyfyngiadau angenrheidiol o ystyried amgylchiadau'r achos a maint unrhyw ymchwiliadau troseddol neu ymchwiliadau gan grwner a allai gael eu rhagfarnu gan ddatgeliad y pryd hwnnw.

18.5 Mae'r Heddlu'n gyfrifol am sicrhau bod cofnodion cywir o bob cyfarfod yn cael eu cofnodi, bod pob penderfyniad yn cael ei ddogfennu a bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r holl wahoddedigion o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod gyda chopi (wedi'i olygu os oes angen) yn cael ei anfon i'r CDRP.

18.6 Mewn rhai ardaloedd, gellir cynnal Grŵp Ymateb Ar Unwaith (IRG), ond **ni all** y rhain gymryd lle cyfarfod PRUDiC ond gellir eu cynnal yn syth wedyn yn unol â dewis aml-asiantaeth lleol.

18.7 Cam 1: Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio (i'w gynnal o fewn 2 ddiwrnod gwaith)

18.7.1 Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnull o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r farwolaeth annisgwyl a chyn cynnal yr archwiliad post-mortem.

18.7.2 Bydd yr Heddlu yn sicrhau bod y teulu'n cael gwybod am y broses PRUDiC yn ddelfrydol cyn y Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

18.7.3 Bydd Ditectif Arolygydd neu Uwch Swyddog Uned Diogelu Pobl Agored i Niwed neu Swyddog Uned Diogelu'r Cyhoedd yn cynnull, yn cadeirio ac yn cofnodi Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio cychwynnol. Mewn amgylchiadau penodol (e.e. marwolaethau newyddanedigion) efallai y bydd angen mewnbwn neu arweiniad gan y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg gyda hyfforddiant a chymhwysedd priodol), Pennaeth Diogelu neu Neonatolegydd.

- Bydd o leiaf Uwch Swyddog yr Heddlu (fel y'i diffinnir uchod), Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd, Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol) a ofalodd am y plentyn, a chynrychiolydd Gofal Cymdeithasol Plant o'r lefel priodol yn mynychu. Mae'n ddymunol bod y Patholegydd yn cael ei gynnwys yn y cyfarfod a gall gyfrannu dros y ffôn. Bydd gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu cynnwys fel y bo'n briodol gan y Cadeirydd (e.e Addysg, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ysgol) tra'n cadw niferoedd mor isel â phosibl ac ar sail angen.

- Dylai cynrychiolwyr addysg yn y cyfarfod fod ar lefel ddigon uchel fel y Person Diogelu Dynodedig/Pennaeth.

Dylai unigolion nad ydynt fel arfer yn mynychu cyfarfodydd PRUDiC gael eu paratoi ymlaen llaw i sicrhau bod lefel o ymwybyddiaeth o gynnwys tebygol a phroses cyfarfodydd PRUDiC.

Dylid ystyried natur sensitif peth o'r wybodaeth a all beri gofid, yn enwedig i'r rhai a oedd yn adnabod y plentyn. Dylid cyhoeddi rhybudd ar ddechrau'r cyfarfod a gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid ychwanegu gwybodaeth ysgrifenedig at y cofnodion, neu a fydd rhai cyfranogwyr yn dymuno gadael ar gyfer y rhan hon o'r cyfarfod.

Dylid drafftio cofnodion a'u dosbarthu i bawb a wahoddir o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

18.7.4 Pwrpas y Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio yw:

- Penderfynu pa weithiwr proffesiynol yw'r person mwyaf priodol i fod yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer cefnogi'r teulu.

- Sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i'r teulu gan gynnwys brodyr a chwiorydd.

- Sicrhau y darperir cefnogaeth briodol i grŵp cyfoedion uniongyrchol y plentyn.

- Er mwyn i bob asiantaeth rannu gwybodaeth o wybodaeth flaenorol am y teulu a chofnodion, gan gyfeirio'n benodol at amgylchedd ac amgylchiadau marwolaeth y plentyn. Byddai hyn yn cynnwys manylion am bryderon blaenorol neu bryderon parhaus ynghylch amddiffyn neu ddiogelu plant, hanes o anaf blaenorol heb esboniad, cam-drin neu esgeulustod, marwolaethau anesboniadwy neu anarferol yn y teulu, cyflyrau meddygol gan gynnwys unrhyw anabledd, rhiant yn camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl rhieni, cam-drin domestig, euogfarnau troseddol rhieni, ymweliadau â'r ysbyty yn y gorffennol ac ymweliadau â Meddygon Teulu.

- Coladu'r holl wybodaeth berthnasol i'w rhannu â Chrwner EF a'r Patholegydd cyn yr archwiliad post-mortem.

- Cynllunio a phennu proses yr ymchwiliad.

- Rhoi ystyriaeth i unrhyw risgiau o ran amddiffyn plant i frodyr a chwiorydd/unrhyw blant eraill, ac ystyried yr angen am weithdrefnau amddiffyn plant.

- Ystyried yr angen i atgyfeirio at y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i'w ystyried gan Adolygiad Ymarfer Plant.

- Sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i bob gweithiwr proffesiynol a ofalodd am y plentyn a'r teulu.

- Argymhellir bod cynnig i unrhyw weithwyr proffesiynol gael eu hatgyfeirio a chael cymorth gan 2Wish yn eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio.

- Ystyried a chynllunio ar gyfer unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau yn y farwolaeth.

- Cytuno pwy fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau y cytunir arnynt ac erbyn pryd.

- Gwneud trefniadau i gynnull y Cyfarfod Trafod Achos o fewn pump i wyth diwrnod ar hugain.

- Mae'r Heddlu'n gyfrifol am sicrhau bod cofnodion cywir o bob cyfarfod yn cael eu cofnodi, bod pob penderfyniad yn cael ei ddogfennu a bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r holl wahoddedigion o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod gyda chopi (wedi'i olygu os oes angen) yn cael ei anfon i'r CDRP.

18.7.5 Lle nodir pryderon ynghylch Amddiffyn Plant, bydd y prosesau Amddiffyn Plant a PRUDiC yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd. Ni fydd y broses Amddiffyn Plant yn cymryd lle'r broses PRUDiC, ond bydd un yn hysbysu'r llall ac i'r gwrthwyneb. Os bydd pryderon ynghylch Amddiffyn Plant yn cael eu nodi, bydd Gofal Cymdeithasol Plant yn cynnal Cyfarfod Strategaeth, yn unol ag amserlenni a phrosesau a ddiffinnir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.[3]

18.8 Cam 1: Y Patholegydd a'r Archwiliad Post-mortem

[3] https://www.diogelu.cymru/cy/

18.8.1 Ym mhob achos cynhelir archwiliad post-mortem oni bai bod Ymarferydd Meddygol cofrestredig yn gallu darparu Tystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth, neu fod Crwner EF yn penderfynu fel arall.

18.8.2 Bydd yr archwiliad post-mortem yn cael ei awdurdodi gan Grwner EF a dylai gael ei gynnal gan batholegydd sydd â'r arbenigedd diweddaraf mewn patholeg bediatrig. Os amheuir esgeulustod neu gamdriniaeth, dylid cynnwys Patholegydd y Swyddfa Gartref yn y gwaith.

18.8.3 Mater i Grwner EF yw gwneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â phroses a lleoliad yr archwiliad post-mortem.

18.8.4 Dylid cynnal yr archwiliad cyn gynted â phosibl ar ôl y Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio ac o fewn pum diwrnod, oni bai bod mater iechyd cyhoeddus posibl yn effeithio ar hynny.

18.8.5 Cyn dechrau'r archwiliad post-mortem, bydd Crwner EF a'r Patholegydd yn cael adroddiad llawn o'r hanes a'r canfyddiadau corfforol yng nghyflwyniad y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â'r hyfforddiant a'r cymhwysedd priodol), a chanfyddiadau'r ymchwiliad i leoliad y farwolaeth gan Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu.

18.8.6 Bydd unrhyw ffotograffau neu recordiadau fideo o'r plentyn neu'r lleoliad ar gael i Grwner EF a'r Patholegydd.

18.8.7 Os nad yw'r ymchwiliadau radiolegol[4] priodol wedi'u gwneud, dylai'r Patholegydd ofyn amdanynt cyn dechrau'r archwiliad post mortem. Bydd y Patholegydd yn cael adroddiad gan y radiolegydd yn ymwneud â'r delweddu sydd wedi'i gynnal. Gall canlyniadau'r ymchwiliadau radiolegol benderfynu pa batholegydd ddylai arwain yr archwiliad post-mortem.

18.8.8 Os nad yw'r Patholegydd wedi mynychu'r cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio, bydd trafodaeth yn cael ei chynnal rhwng Cadeirydd y Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio (Uwch Swyddog o Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu fel arfer) a'r Patholegydd cyn cynnal yr archwiliad post-mortem i ganfod materion sydd heb eu datrys neu faterion nas amheuir ac i sicrhau dealltwriaeth gywir o'r wybodaeth.

18.8.9 Os yw'r Pediatregydd Ymgynghorol (neu'r meddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol) wedi trefnu unrhyw ymchwiliadau labordy cyn y farwolaeth, bydd Crwner EF a'r Patholegydd yn cael eu hysbysu cyn yr archwiliad post-mortem, a bydd y canlyniadau ar gael cyn gynted â phosibl.

18.8.10 Bydd Swyddog y Crwner yn hysbysu'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol am amser a lleoliad yr archwiliad post-mortem, gan gynnwys yr Heddlu a'r Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol). Bydd y teulu hefyd yn cael gwybod gan Swyddog y Crwner neu'r Swyddog Cyswllt Teuluol (os oes Swyddog Cyswllt Teuluol wedi'i benodi i weithio gyda'r teulu).

[4] Cymdeithas a Choleg y Radiograffwyr a Choleg Brenhinol y Radiolegwyr. *The radiological investigation of suspected physical abuse in children*. Llundain: Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2017.

18.8.11 Lle codir y posibilrwydd o gam-drin plentyn yn rhywiol, dylai'r Patholegydd ymgynghori â chlinigydd sy'n gallu asesu ac archwilio plant ar gyfer cam-drin rhywiol honedig. Bydd y cyswllt yn digwydd drwy ddarpariaeth SARC (y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol) plant lleol. (Gweler Atodiad 10).

18.8.12 Bydd y Patholegydd yn hysbysu Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu a Gofal Cymdeithasol Plant ar unwaith os oes pryderon ynghylch amddiffyn plant wedi codi yn ystod yr archwiliad post-mortem.

18.8.13 Gall Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu neu ei Ddirprwy fod yn bresennol yn yr archwiliad post-mortem, os yw'r Heddlu wedi gofyn i Grwner EF am archwiliad post-mortem fforensig wedi'i gynnal gan Batholegydd o'r Swyddfa Gartref. Os nad yw'n bosibl i Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu fod yn bresennol, yna mae'n rhaid iddi/iddo anfon cynrychiolydd sy'n ymwybodol o holl ffeithiau'r achos ac a all ddarparu briff llawn o'r wybodaeth berthnasol a allai fod o gymorth i'r patholegydd. Bydd Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu yn penderfynu ar yr adnoddau priodol i fynychu yn unol â Chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC). Byddai hyn fel arfer yn cynnwys o leiaf Ditectif profiadol a all gynrychioli buddiannau'r tîm ymchwilio. Bydd ef/hi yn cael ei g/chefnogi gan yr Ymchwilydd Lleoliad Trosedd, y Rheolwr Safle Trosedd a'r Swyddog Arddangosion, yn unol â chyfarwyddyd Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu.

18.8.14 Bydd canfyddiadau interim y post-mortem yn cael eu hanfon gan y Patholegydd at Grwner Ei Fawrhydi cyn gynted ag y bydd yr archwiliad post-mortem wedi'i gwblhau.

18.8.15 Bydd copi o'r adroddiad post-mortem terfynol yn cael ei anfon gan y Patholegydd at Grwner EF, a fydd yn ei rannu â gweithwyr proffesiynol priodol yn ôl eu disgresiwn.

18.8.16 Mater i Grwner EF yw rhyddhau corff y plentyn, mewn ymgynghoriad ag Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu os oes archwiliad post-mortem fforensig wedi'i gynnal.

18.8.17 Bydd Crwner EF yn adrodd yn ôl ar y canlyniadau post-mortem rhagarweiniol a therfynol i'r teulu cyn gynted ag y bydd y rhain ar gael. Os amheuir camdriniaeth neu esgeulustod a/neu fod yr Heddlu yn cynnal ymchwiliad troseddol, bydd Crwner EF, drwy Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu, yn cynghori'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o'r broses PRUDiC. Bydd cynrychiolwyr asiantaethau unigol yn cynghori'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio'n agos gyda'r teulu ynghylch pa wybodaeth y gellir ei rhannu â'r rhieni a phryd y gellir rhannu'r wybodaeth honno.

18.8.18 Lle nad yw achos y farwolaeth wedi'i bennu yn yr archwiliad post-mortem neu y gallai'r farwolaeth fod wedi bod yn annaturiol, bydd Crwner EF yn cynnal Cwest maes o law.

18.8.19 Bydd yr Heddlu/Swyddog Crwner EF yn paratoi adroddiad ar gyfer Crwner EF unwaith y bydd y wybodaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad wedi'i chasglu. Bwriad yr adroddiad hwn yw bod yn sail i Gwest Crwner EF.

18.9 Cam 2: Y Cyfarfod Trafod Achos (O fewn 5-28 diwrnod)

18.9.1 Mae gan bob gweithiwr proffesiynol gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch y farwolaeth yn cael eu trosglwyddo i Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu cyn gynted â phosibl.

18.9.2 Rhaid galw Cyfarfod Trafod Achos o fewn 5 i 28 diwrnod. Bydd Ditectif Arolygydd neu Uwch Swyddog Uned Diogelu Pobl Agored i Niwed neu Swyddog Uned Diogelu'r Cyhoedd yn cynnull, yn cadeirio ac yn paratoi cofnodi ar gyfer y cyfarfod. Bydd o leiaf yr Uwch Swyddog yr Heddlu (fel y'i diffinnir uchod), Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd, a chynrychiolydd Gofal Cymdeithasol Plant o'r lefel priodol yn bresennol. Dylai'r cyfarfod hefyd gynnwys y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg gyda'r hyfforddiant a'r cymhwysedd priodol) a'r Patholegydd. Bydd gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu cynnwys fel y bo'n briodol gan y Cadeirydd gan gadw'r niferoedd mor isel â phosibl ac ar sail angen. Gyda chytundeb Crwner EF, **gall** canlyniadau rhagarweiniol yr archwiliad post-mortem fod ar gael.

18.9.3 Pwrpas y Cyfarfod Trafod Achos yw:

- Derbyn unrhyw wybodaeth nad oedd ar gael yn y Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio.
- Trafod unrhyw ymchwiliadau pellach sy'n mynd rhagddynt.
- Trafod canlyniadau rhagarweiniol yr archwiliad post-mortem.
- Ystyried unrhyw bryderon ynghylch diogelu neu amddiffyn plant.
- Ystyried unrhyw faterion o ran datgelu ac unrhyw gyfyngiadau angenrheidiol yn unol â natur yr achos a maint unrhyw ymchwiliadau troseddol neu grwnerol.
- Ystyried yr angen i atgyfeirio at y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol er mwyn cynnal Adolygiad Ymarfer Plant.
- Sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i'r teulu.
- Sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i bob gweithiwr proffesiynol a ofalodd am y plentyn a'r teulu. Mae cynnig i atgyfeirio unrhyw weithwyr proffesiynol at 2Wish (neu grwpiau cymorth lleol eraill) yn cael ei argymell fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd PRUDiC.
- Ystyried a chynllunio ar gyfer unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau yn y farwolaeth.
- Cytuno pa asiantaeth fydd yn cymryd pob cam gweithredu a chytuno ar amserlenni (na fydd efallai'n fwy na'r rhai a nodir yn y PRUDiC hwn) er mwyn gwneud hynny.

18.9.4 Mae'r Heddlu'n gyfrifol am sicrhau bod cofnodion cywir o bob cyfarfod yn cael eu cymryd, bod pob penderfyniad yn cael ei ddogfennu a bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r holl wahoddedigion o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod gyda chopi (wedi'i olygu os oes angen) yn cael ei anfon i'r CDRP.

18.9.5 Bydd y Cadeirydd (neu ei gynrychiolydd) yn darparu gwybodaeth sydd ar gael i Reolwr Busnes yr RSB a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant gan ddefnyddio'r Ffurflen Hysbysu am Farwolaeth Plentyn. (Atodiad 5)

18.9.6 Gyda chytundeb y Cadeirydd ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac ar gwrs unrhyw ymchwiliad troseddol, bydd y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg gyda hyfforddiant a chymhwysedd priodol) yn ysgrifennu llythyr at y rhieni (os yw'n briodol) yn cynnig cyfarfod â nhw i drafod y wybodaeth sydd ar gael am achos marwolaeth eu plentyn, ateb unrhyw gwestiynau, a chynnig gofal a chymorth yn y dyfodol.

18.9.7 Bydd Crwner EF yn cael gwybod am unrhyw wybodaeth newydd berthnasol a rennir yn y cyfarfod hwn. Cyfrifoldeb Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu fydd hyn.

18.10 Cam 3: Y Cyfarfod Adolygu Achos (O fewn 12 mis)

18.10.1 Diben y Cyfarfod Adolygu Achos yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol bod ymchwil trylwyr wedi'i wneud i bob marwolaeth annisgwyl plentyn a bod yr holl elfennau sydd wedi'u dysgu wedi'u nodi.

18.10.2 Rhaid cynnal Cyfarfod Adolygu Achos cyn gynted â phosibl ar ôl cael canlyniadau'r holl ymchwiliadau perthnasol. Bydd angen adroddiad terfynol yr archwiliad post-mortem er mwyn hysbysu'r cyfarfod hwn. Mae rhannu adroddiad terfynol yr archwiliad post-mortem yn ôl disgresiwn Crwner EF ac efallai na fydd yn bosibl nes bod y cwest neu'r achos llys wedi'i gwblhau.

18.10.3 Bydd yr holl gofnodion perthnasol ar gael i'r cyfarfod hwn, gan gynnwys cofnodion a phenderfyniadau'r Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio a'r Cyfarfod Trafod Achos. Os cynhelir y cyfarfod hwn ar ôl y Cwest, dylid ystyried gwneud cais i Grwner EG am recordiad o'r Cwest.

18.10.4 Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnull a'i gadeirio gan Dditectif Arolygydd neu Uwch Swyddog Uned Diogelu Pobl Agored i Niwed neu Swyddog Uned Diogelu'r Cyhoedd. Bydd y cyfarfod o leiaf yn cynnwys Uwch Swyddog yr Heddlu (fel y'i diffinnir uchod), Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd, cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol Plant o'r lefel priodol ac eraill os yw'n ddefnyddiol i'r broses. Dylid drafftio cofnodion a'u dosbarthu i bawb a wahoddir o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod hwn.

18.10.5 Bydd y Cyfarfod Adolygu Achos yn:

- Ystyried a oes angen unrhyw gymorth proffesiynol parhaus ar y teulu.
- Ystyried unrhyw bryderon ynghylch diogelu neu amddiffyn plant.
- Ystyried yr angen i atgyfeirio at y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i ystyried Adolygiad Ymarfer Plant.
- Ystyried gwybodaeth am achos y farwolaeth a'r ffactorau hynny a allai fod wedi cyfrannu at y farwolaeth gan gynnwys;

- Ffactorau sy'n gynhenid i'r plentyn.
- Ffactorau yn yr amgylchedd cymdeithasol gan gynnwys y teulu a’r gallu i fagu plant.
- Ffactorau yn yr amgylchedd ffisegol.
- Ffactorau mewn perthynas â darparu gwasanaethau.

- Nodi'r hyn a ddysgwyd o unrhyw Adolygiad o Farwolaeth Plentyn y Bwrdd Iechyd ac unrhyw broses adolygu mewnol asiantaeth unigol arall.
- Nodi'r hyn a ddysgwyd o unrhyw Adolygiad Ymarfer Plant neu Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.
- Rhannu barn y teulu am y broses PRUDiC a’r gofal a’r cymorth y maent wedi’u derbyn lle mae’r rhain wedi’u rhannu â gweithwyr proffesiynol.

18.10.6 Yn y cyfarfod hwn, bydd y Cadeirydd neu ei gynrychiolydd yn cwblhau Templed Crynodeb o Achos (Atodiad 6) a'i anfon ymlaen at Reolwr Busnes y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant.

18.10.7 Bydd pob asiantaeth yn sicrhau bod unrhyw ddysgu ar y cyd yn y Cyfarfod Adolygu Achos yn cael ei ledaenu o fewn eu hasiantaeth ac yn enwedig i'r rhai sydd ynghlwm â'r plentyn a'r teulu cyn neu ar adeg marwolaeth y plentyn.

19. Cefnogi Teuluoedd mewn Profedigaeth

19.1 Mae marwolaeth plentyn yn golled ddifrifol sy'n effeithio'n ddirfawr ar rieni mewn profedigaeth yn ogystal â brodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau, teulu estynedig, ffrindiau ac eraill a fu'n gofalu am y plentyn. Mae angen cwrdd â theuluoedd sy'n profi trasiedi o'r fath a'u cefnogi gydag empathi a thosturi. Mae angen cyfathrebu clir a sensitif arnynt. Mae angen iddynt hefyd ddeall beth ddigwyddodd i'w plentyn a byddant eisiau gwybod y bydd pobl yn dysgu o'r hyn a ddigwyddodd.[9]

19.2 Gall yr amser a dreulir gyda'r teulu fod yn fyr, ond gall gweithredoedd gweithwyr proffesiynol ddylanwadu ar sut y mae'r teulu'n delio â'r brofedigaeth yn yr hirdymor. Mae bod ag agwedd sympathetig a chefnogol tra'n sicrhau proffesiynoldeb yn hanfodol. Bydd ymatebion pobl mewn galar yn amrywio; gall unigolion fod mewn sioc, yn ddideimlad, yn dawedog neu'n ofidus iawn. (Gweler Atodiad 1 am Awgrymiadau i bob Gweithiwr Proffesiynol wrth siarad â Rhieni mewn Profedigaeth ac Atodiad 2 ar gyfer Ffynonellau Cymorth i Deuluoedd).

19.3 Dylai pob gweithiwr proffesiynol wneud y canlynol:

- Trin y plentyn gyda naturioldeb a pharch, fel pe bai'r plentyn yn dal yn fyw.
- Cyfeirio at y plentyn wrth ei enw bob amser.
- Rhoi amser a chyfle i deuluoedd ofyn cwestiynau.
- Mynd i'r afael â materion ymarferol e.e. ble fydd y plentyn yn mynd, beth fydd yn digwydd, pryd y byddant yn gweld y plentyn.
- Cyfathrebu'n sensitif â theuluoedd mewn ffordd y byddant yn ei deall a thrwy ddefnyddio iaith y maent yn ei deall, gan ystyried eu credoau crefyddol a'u gwahaniaethau diwylliannol.

19.4 Dylai pob Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- Bod â Gwasanaeth Profedigaeth gydag un neu fwy o Gynghorwyr Profedigaeth i ddarparu gwasanaeth i deuluoedd a hyfforddi staff eraill.
- Sicrhau bod gan bob maes clinigol staff sydd â hyfforddiant pellach a sgiliau rhagorol mewn gofal profedigaeth, gan gynnwys gwybodaeth am sensitifrwydd diwylliannol, y gwasanaeth crwnerol, archwiliadau post-mortem a threfniadau angladd.
- Bod â Llwybr Gofal Profedigaeth i sicrhau bod rhieni a brodyr a chwiorydd yn cael eu cefnogi o'r adeg y maent yn cyrraedd yr Adran Achosion Brys ymlaen.
- Bod â threfniadau ar waith i sicrhau bod y Llwybr Gofal Profedigaeth yn cael ei ddilyn.

- Cynnig Blwch Atgofion i rieni sy’n cynnwys gwybodaeth am gymorth gyda phrofedigaeth ac atgofion am eu plentyn, yn ogystal â chynnig atgyfeiriad i 2Wish neu sefydliad cymorth arall fel y bo’n briodol gan staff.

[9] Canllawiau Statudol Adolygu Marwolaethau Plant, Llywodraeth EM Hydref 2017

20. Cefnogi Staff

20.1 Bydd pob marwolaeth plentyn yn effeithio i raddau amrywiol ar aelodau o staff sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn a'r teulu. Dylai fod gan asiantaethau drefniadau ar waith i gefnogi staff a allai gael eu heffeithio gan y digwyddiadau sy’n gysylltiedig â’r farwolaeth. Bydd 2Wish hefyd yn cynnig cymorth annibynnol i weithwyr proffesiynol os oes angen.

21. Siart llif y Broses PRUDiC

21.1 Dylid dilyn y siart llif hwn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos. Dylid cofnodi amrywiad ynghyd â'r rhesymeg. Pwysleisir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid mynd â'r plentyn yn syth i'r marwdy. Yn y rhan fwyaf o achosion dylid mynd â'r plentyn i'r Adran Achosion Brys a'i archwilio gan y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â'r hyfforddiant a'r cymhwysedd priodol) ar alwad.

Marwolaeth Annisgwyl Tu Allan i'r Ysbyty

Mae'r Heddlu'n penderfynu na ellir symud plentyn oherwydd rhesymau'n ymwneud a chyfiawnder troseddol

Mae cyflwr y plentyn yn golygu nad yw'n bosibl ei ddadebru a'i fod yn amhriodol mynd a'r plentyn i'r Adran Achosion Brys (Gweler adran 11.4)

Pob marwolaeth annisgwyl plentyn arall (Gweler adran 2.2)

Cludir y plentyn i'r marwdy, ar ôl cynnal unrhyw archwiliad fforensig yn y fan a'r lie.

Cludir y plentyn i Adran Achosion Brys mewn Ambiwlans

Dilynwch y camau yn Siart Llif (2) **BLWCH A** wedi'i uwcholeuo

Heddlu:

- Rhoi gwybod i Grwner EF
- Gofyn i'r Archwiliwr Meddygol Fforensig archwilio plentyn os bydd yr Uwch Swyddog Ymchwilio yn gofyn am hynny

Rhoi gwybod i'r Nyrs sy'n Gyfrifol yn yr Adran Achosion Brys

- Penodi Swyddog Cyswllt Teulu/ pwynt cyswllt sengl yr Heddlu, a fydd yn cefnogi'r teulu, rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r PRUDiC a'r Post Mortem
- Cynnig atgyfeirio'r teulu i 2Wish neu sefydliad cymorth arall
- Hysbysu Gofal Cymdeithasol Plant a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch diogelu

Nyrs sy'n Gyfrifol yn yr Adran Achosion Brys i sicrhau body canlynol yn cael eu hysbysu:

- Pediatregydd Ymgynghorol
- Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd
- Meddyg Teulu

Dilynwch y camau yn Siart Llif (2) **BLWCH B** wedi'i uwcholeuo

BLWCH A
(marwolaeth heb fod yn yr ysbyty - parhad o dudalen 37)

Marwolaeth Annisgwyl fel Claf Mewnol Ysbyty

Pediatregydd Ymgynghorol:

- Cymryd hanes gan rieni/gofalwyr gyda'r Heddlu
- Archwilio'r plentyn (dylai'r Heddlu fad yn bresennol)
- Cynghori'r teulu am PRUDiC ac archwiliad Pas t Mortem
- Sicrhau fad Gweithiwr Allweddol Adran Achosion Brys wedi'i ddyrannu, i ddarparu cymorth trawma yn yr Adran a chynnig Blwch Atgofion a chyfeirio at 2Wish neu sefydliad cymorth arall fel y bo'n briodol.

Rhaid i'r Adran Achosion Brys neu Nyrs Ward sy'n gyfrifol sicrhau bod y canlynol yn ymwybodol:

- Crwner EF
- Yr Heddlu
- Meddyg Teulu
- Pennaeth Diogelu'r Bwrdd lechyd
- Gofal Cymdeithasol Plant

Dylid ystyried yr angen i hysbysu Llywodraeth Cymru fel Digwyddiad Difrifol neu Ddigwyddiad Dim Byd Annisgwyl o dan 'Gweithio i Wella'

BLWCH B
Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio Cyfarfod o fewn 2 ddiwrnod gwaith
Gweler Adran 11.6

Rhaid cynnwys o leiaf:

- Uwch Swyddog PVPU/PPU
- Pennaeth Diogelu'r Bwrdd lechyd (neu ddirprwy)
- Cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol Plant
- Pediatregydd Ymgynghorol a fu'n gofalu am y plentyn

Post Mortem:

Patholegydd i adrodd i Grwner EF

Swyddog Ymchwilio, lie bo'n briodol, i roi gwybod pa wybodaeth y gellir ei rhannu ag eraill gan gynnwys yr Heddlu, y Teulu, Pediatregydd Ymgynghorol a Gweithwyr Proffesiynol eraill.

Cyfarfod Trafod Achos ofewn 5-28 diwrnod:
Gweler Adran 11.8

Yr heddlu i hysbysu'r teulu am ganlyniadau Cyfarfod Trafod Achosa chanlyniadau Post Mortem rhagarweiniol fel y bo'n briodol

Cyfarfod Adolygu'r Achos o fewn 12 mis:
Gweler Adran 11.9

Crynodeb o'r Achos i'w gwblhau gan y Cadeirydd (neu ddirprwy) a'i anfon at Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant

Atodiadau

Atodiad 1:
Siarad â Rhieni mewn Profedigaeth

Wedi'i addasu o gyngor a roddir gan y Lullaby Trust

- Bob tro, pan fyddwch chi'n cyrraedd, dywedwch pwy ydych chi a pham rydych chi yno, a dywedwch pa mor ddrwg ydych chi am yr hyn sydd wedi digwydd i'r plentyn.
- Bydd y rhieni yn y camau cyntaf o alar a gallant ymateb mewn amrywiaeth o ffyrdd, megis sioc, diffyg teimlad, dicter neu drallod. Rhowch le ac amser i'r rhieni grio, i siarad gyda'i gilydd ac i gysuro unrhyw blant eraill. Mae'r adegau cynnar hyn o alaru yn bwysig iawn. Efallai y bydd rhieni am ddal eu plentyn a gellir gwneud hyn yn bosibl, os yw'n briodol, ond efallai y bydd angen goruchwylio hyn.
- Wrth siarad am y plentyn mae'n well defnyddio'r enw cyntaf, neu, os nad ydych chi'n gwybod yr enw eto, dywedwch 'eich plentyn', neu 'fe' neu 'hi'.
- Parchwch gredoau a diwylliant crefyddol y teulu, gan gynnwys arferion claddu. Byddwch yn ymwybodol y gall unigolion ddilyn rhannau o grefydd yn unig a bod amrywiadau enfawr o fewn pob set o gredoau.
- Dylid ystyried pryd y gellir rhyddhau'r corff i'w gladdu. Dylid hysbysu rhieni yn llawn os bydd oedi.
- Byddwch yn sensitif i strwythurau teuluol annhraddodiadol, e.e. perthnasoedd o'r un rhyw, llysdeuluoedd, rhieni maeth a neiniau a theidiau fel gwarcheidwaid.
- Os nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, dylid trefnu cyfieithydd ar y pryd.
- Gofynnwch i'r teulu sut maen nhw'n dymuno cael eu cyfarch, sut i ynganu eu henwau a sut i'w sillafu. Peidiwch â chofnodi na chyfarch dyn Mwslimaidd neu ddyn neu fenyw Sikh wrth ei enw/henw crefyddol yn unig.
- Ewch ymlaen yn araf, gan roi'r cyfle i'r rhieni gasglu eu meddyliau ac adrodd y stori yn eu ffordd eu hunain.
- Byddwch yn barod i ateb cwestiynau ymarferol, er enghraifft am ble fydd y plentyn yn cael ei gymryd a phryd y gallant weld y plentyn nesaf.
- Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo'n euog pan fydd eu plentyn wedi marw. Wrth siarad â nhw, ceisiwch ofyn cwestiynau mewn ffordd niwtral, e.e. 'Hoffech chi ddweud wrthyf beth ddigwyddodd?' Dylech osgoi cwestiynau sy'n swnio'n feirniadol, fel 'Pam na wnaethoch chi?'
- Peidiwch â defnyddio ymadroddion fel 'marwolaeth amheus' neu 'leoliad trosedd' a cheisiwch osgoi sylwadau a allai gael eu camddeall gan y rhieni neu a allai beri gofid iddynt.

Atodiad 2:
Ffynonellau Cymorth i Deuluoedd

2Wish
Mae'n darparu cefnogaeth, cwnsela a grwpiau cymorth ar unwaith i rieni sy'n colli plentyn neu oedolyn ifanc o dan 25 oed yn sydyn ac yn drawmatig.

Ffôn: 01443 853125
Llun - Gwener 09.30 - 16.30 **E-bost:** info@2wish.org.uk www.2wish.org.uk

Child Bereavement UK
Cefnogaeth i rieni a phlant sydd wedi cael profedigaeth.

Llinell Gymorth: 0800 02 888 40
Llun - Gwener 09.00 - 17.00,

E-bost: support@childbereavementuk.org www.childbereavementuk.org

The Child Death Helpline
Mae'r Child Death Helpline yn llinell gymorth ar gyfer unrhyw un yr effeithiwyd arno gan farwolaeth plentyn o unrhyw oedran, waeth pa mor ddiweddar neu bell yn ôl y digwyddodd hynny. Atebir galwadau gan riant sydd wedi dioddef profedigaeth, sydd wedi cael ei hyfforddi a'i gefnogi gan staff proffesiynol. Sylwch mai gwasanaeth gwrando yw hwn nid gwasanaeth cwnsela er y gallant ddarparu manylion am wasanaethau mewn ardaloedd lleol.

Llinell Gymorth (Rhadffôn): 0800 282 986

Rhif ffôn Rhad ac Am Ddim ychwanegol ar gyfer POB ffôn symudol: 0808 800 6019

Mae'r Llinell Gymorth ar agor bob dydd o'r flwyddyn:

Bob nos: 19.00 - 22.00
Llun - Gwener 10.00 - 13.00 Dydd Mawrth - Dydd Mercher: 13.00 - 16.00
www.childdeathhelpline.org.uk

The Compassionate Friends
Cefnogaeth i rieni mewn profedigaeth a'u teuluoedd.

Llinell Gymorth: 0345 123 2304
Bob dydd: 10.00 - 16.00 / 19.00 - 22.00
E-bost: helpline@tcf.org.uk www.tcf.org.uk

Gofal Galar Cruse
Cefnogaeth i unrhyw un sydd mewn profedigaeth.

Llinell Gymorth: 0808 808 1677
Llun - Gwener 09.30 - 17.00 **E-bost:** info@cruse.org.uk www.cruse.org.uk

The Lullaby Trust
Cefnogaeth arbenigol i deuluoedd mewn profedigaeth ac unrhyw un sydd wedi dioddef marwolaeth sydyn baban.

Llinell Gymorth (Rhadffôn): 0808 802 6868
Llun - Gwener 10.00 - 23.00
Penwythnosau a Gwyliau Banc: 18.00 - 23.00
E-bost: support@lullabytrust.org.uk www.lullabytrust.org.uk

Survivors of Bereavement by Suicide
Cefnogaeth i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

Llinell Gymorth: 0300 111 5065
Bob dydd: 09.00 - 21.00

E-bost: sobs.support@hotmail.com www.uk-sobs.org.uk

Winston's Wish
Cefnogaeth i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed mewn profedigaeth. Mae gwefan ryngweithiol ar gael hefyd.

Llinell Gymorth: 08452 03 04 05
Llun - Gwener 09.00 - 17.00 **E-bost:** info@winstonswish.org.uk www.winstonswish.org.uk

Atodiad 3:

Profforma ar gyfer Hanes ac Archwiliad Corfforol y Plentyn

Addaswyd o 'Sudden unexpected death in infancy and childhood: multi-agency guidelines for care and investigation'. Coleg Brenhinol y Patholegwyr, 2il argraffiad, Tachwedd 2016.

Profforma Hanes

Enw'r Plentyn	
Gwrywaidd neu Fenywaidd	
Ethnigrwyd	
Dyddiad Geni	☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐ DIWRNOD BLWYDDYN
Dyddiad y	☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐ DIWRNOD BLWYDDYN
Cyfeiriad	
Cod post	

I’w gwblhau gan y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol) sy’n archwilio’r plentyn a’i gadw fel rhan o’r cofnod iechyd)

Enw'r Tad

Dyddiad Geni y Tad

DIWRNOD MIS BLWYDDYN

Cyfeiriad y Tad

(Os yn wahanol i'r plentyn)

Enw'r Fam

Dyddiad Geni'r Fam

DIWRNOD MIS BLWYDDYN

Cyfeiriad y Fam

(Os yn wahanol i'r plentyn)

Enw'r Partner

(Os yn berthnasol)

Dyddiad Geni'r Partner

DIWRNOD MIS BLWYDDYN

Cyfeiriad y Partner

(Os yn wahanol i'r plentyn)

Perthynas Teuluol

(Graddy perthnasau)

Meddyg Teulu

Cyfeiriad y Meddyg Teulu

Ymgynghorydd/wyr	
Prif Ymchwilydd yr Heddlu	
Gweithiwr Cymdeithasol	
Crwner EF / **Swyddfa Crwner** EF	
Gweithwyr Proffesiynol (Rhowch fanylion llawn}	

Manylion Cludo'r Plentyn i'r Ysbyty

Lleoliad y farwolaeth? • Cyfeiriad cartref fel yr uchod? • Lleoliad arall? (Rhowch fanylion) • Ysbyty? (Rhowch fanylion)	
Amser Darganfod?	[redacted]
Amser cyrraedd yr Adran Achosion Brys?	[redacted]
Ceisiwyd dadebru?	[redacted] DO [redacted] NADDO
Yn lleoliad y farwolaeth? **Yn yr Ambiwlans?** **Yn yr Adran Achosion Brys?**	
Gan bwy? (Rhowch fanylion) • Gofalwyr? • Meddyg Teulu? • Criw'r Ambiwlans? • Staff Ysbyty? • Eraill?	[redacted]
Cadarnhad o Amser y Farwolaeth	[redacted]
Cadarnhad o Ddyddiad y Farwolaeth	[redacted] DIWRNOD [redacted] MIS [redacted] BLWYDDYN

Hanes

Cofnodwyd yn yr Adran **Achosion Brys gan?**	
Cofnodwyd yn ystod yr Ymweliad a'r Catref gan?	
Rhoddwyd yr hanes gan?	
Perthynas a'r plentyn:	

Digwyddiadau o Amgylch y Farwolaeth

Pwy ddaeth o hyd i'r plentyn?	
Ym mhle a phryd?	
Sut yr oedd y plentyn yn edrych pan gafodd ei ddarganfod?	
Pwy alwodd y Gwasanaethau Brys?	
Pa bryd y gwelwyd y plentyn yn fyw ddiwethaf a chan bwy?	
Manylion unrhyw ddadebru a ddigwyddodd gartref, gan Griw Ambiwlans ac yn yr Ysbyty?	
Ar gyfer marwolaethau damweiniol/trawmatig, manylion amgylchiadau'r farwolaeth a thystion?	

Naratif Manwl o'r 24 i'r 48 awr diwethaf

I gynnwys manylion am weithgareddau a gofalwyr yn ystod y 24 i'r 48 awr diwethaf.

Manylion:

Unrhyw alcohol neu gyffuriau a gymerwyd gan y plentyn neu'r gofalwyr?

Manylion :

Ar gyfer Marwolaeth Annisgwyl Sydyn Mewn Babandod (SUDI), rhowch fanylion y cwsg diwethaf, ble a sut y rhoddwyd y babi i lawr, ble a sut y daethpwyd o hyd iddo/iddi, unrhyw newidiadau? Manylion bwydo a gofal a roddwyd?

Manylion:

Pryd gafodd ei g/weld ddiwethaf gan Feddyg neu weithiwr proffesiynol arall a pham?

Manylion:

Manylion pellach am y 2 i 4 wythnos flaenorol, gan gynnwys iechyd y plentyn, unrhyw newidiadau i'r drefn arferol?

Manylion :

Hanes Teuluol

Manylion holl aelodau'r teulu a'r cartref, gangynnwys enwau, dyddiadau geni, iechyd, unrhyw salwch blaenorol neu gyfredol gan gynnwys iechyd meddwl, unrhyw feddyginiaethau a galwedigaeth ar hyn o bryd?

Manylion :

Sawl gwaith mae'r fam wedi esgor a'i hanes obstetrig?

Manylion :

Perthnasoedd y rhieni?

Manylion :

Plant, gan gynnwys plant gan bartneriaid blaenorol?

Manylion :

Cyfansoddiad y cartref?

Manylion:

Unrhyw farwolaethau yn ystod plentyndod blaenorol yn y teulu?

Manylion:

Hanes Meddygol

Y plentyn, i gynnwys beichiogrwydd a genedigaeth, hanes amenedigol, bwydo, twf a **datblygiad?**

Manylion:

lechyd ac unrhyw salwch blaenorol neu gyfredol, derbyniadau i'r ysbyty ac unrhyw feddyginiaeth?

Manylion :

Gwiriadau ac imiwneiddio arferol?

Manylion:

Adolygiad o Systemau?

Manylion:

Hanes ymddygiadol ac addysgol os yn briodol?

Manylion :

Hanes Cymdeithasol

Math a natur y llety?

Unrhyw ddigwyddiadau bywyd sylweddol?

Wedi teithio dramor o gwbl?

Rhwydweithiau cymorth teulu ehangach?

Unrhyw Hanes Perthnasol Arall

Gall amrywio yn 61 oedran y plentyn a natur y farwolaeth

Gwybodaeth a gafwyd o Gofnodion

Yr ysbyty, Meddyg Teulu, Ymwelydd Iechyd, Galw Iechyd Cymru, ac ati (Cynhwyswch gofnodion a gedwir gan y teulu fel y Cofnod Iechyd Personol Plentyn (Llyfr Coch) Criw'r Ambiwlans, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cronfeydd Data, Cofnodion Achos, Cofrestr

Criw'r Ambiwlans

Gwasanaethau Cymdeithasol, Cronfeydd Data, Cofnodion Achos, Cofrestr Amddiffyn Plant, ac ati

Cudd-wybodaeth yr Heddlu, ASSIST yr Heddlu, Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, Trais Domestig, ac ati.

Unrhyw wybodaeth arall?

Manylion

Profforma Archwiliad Corfforol

Archwiliad i'w gynnal gan y Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg gyda'r hyfforddiant a chymhwysedd priodol).
(Dylai Ymchwilydd yr Heddlu fod yn bresennol).

Enw'r Plentyn	
Gwrywaidd neu Fenywaidd	
Ethnigrwyd	
Dyddiad Geni	DIWRNOD MIS BLWYDDYN
Dyddiad y	DIWRNOD MIS BLWYDDYN
Cyfeiriad	
Cod post	

Archwiliad Corfforol wedi'i gynnal gan: (Ysgrifennwch yr enw llawn a'r teitl mewn print bras)	
Unrhyw un arall a oedd yn bresennol yn yr Archwiliad? (Ysgrifennwch yr enw/au llawn a'r teitl/au mewn print bras)	
Dyddiad yr Archwiliad Corfforol	DIWRNOD MIS BLWYDDYN
Amser yr Archwiliad Corfforol	:
Pa mor hir ers y farwolaeth	

Ar gyfer babanod a phlant o dan 24 mis oed, dylid cynnwys mesuriadau twf llawn

Canradd				
Hyd (cm}	cm:		Canradd	
Cylchedd pen (cm}	cm:		Canradd	
Pwysau (g}	cm:		Canradd	

Ar gyfer pob plentyn 0-18 oed

Archwiliad retinol	
Tymheredd rhefrol	
Cyflwr o ran maeth	
Cyflwr hylendid	
Marciau, livedo, cleisiau neu dystiolaeth o anaf. Dylech gynnwys unrhyw olion **pigiadau meddygol ac ymdrechion a fethodd (dylid** dangos hyn ar siart corff}	
Noder: Gwiriwch yr organau cenhedlu	
Noder: Gwiriwch y cefn	
Noder: Gwiriwch y geg Ydy llinyn y gwefusau/tafod yn gyflawn?	

Manylion a sylwadau pellach

Rhestrwch yr holl gyffuriau a roddwyd yn yr Ysbyty ac unrhyw ymyriadau a gyflawnwyd wrth ddadebru

Dogfennwch arsylwadau uniongyrchol o leoliad y tiwb endotracheaidd cyn ei dynnu

Dogfennwch unrhyw ganwlau, tiwbiau trwyn i'r stumog ac unrhyw ymyriad meddygol arall cyn eu tynnu

Dy dd i [redacted] Amser

DIWRNO MIS BLWYDDYN

Llofnod y person a gynhaliodd yr archwiliad corfforol

Dy d d i [redacted] Amser

DIWRNO MIS BLWYDDY

Llofnod/ion unigolion eraill a oedd yn bresennol yn yr archwiliad

Mewnosodwch Siart Corff

Atodiad 4:
Rhestr Wirio Archwiliad o Leoliad y **Farwolaeth i Fabanod a Phlant o dan 24 Mis**

Addasiad o 'Sudden unexpected death in infancy and childhood: multi-agency guidelines for care and investigation'. Coleg Brenhinol y Patholegwyr, 2il argraffiad, Tachwedd 2016.

I'w llenwi gan yr heddlu a'i gadw fel rhan o'u cofnod.

Profforma Archwiliad o'r Lleoliad

Enw'r Plentyn	
Dyddiad Geni	DIWRN MIS BLWYDDYN
Dyddiad y Farwolaeth	DIWRNOD MIS BLWYDDYN
Cyfeiriad	
Cod post	
Dyddiad yr Ymweliad	DIWRNO MIS BLWYDDYN
Personau yn Bresennol	[redacted]

Ystafell

Nodwch:

- Maint
- Cyfeiriadedd (cwmpawd)
- Cynnwys
- Unrhyw 'anniben dod'?

Awyru: Ffenestri a Drysau (ar agor neu ar gau)

Gwresogi: (Gan gynnwys amseroedd cynnau / diffodd)

Mesur Tymheredd Dror ^{0}C

Amgylchedd Cysgu

Noder: Lleoliad y gwely/cot mewn perthynas a gwrthrychau eraill yn yr ystafell

Oedd y plentyn yn cysgu ar soffa, ar lawr neu rywle arall?

Matres/Gwely/Gwrthrychau?

Safle'r Plentyn

Pryd roddwyd y plentyn i gysgu?

Pryd ddarganfuwyd y plentyn?

Oedd unrhyw dystiolaeth o or-lapio neu or-gynhesu? ☐ OEDD ☐ NAC OEDD

Sylwada u:

Oedd unrhyw Gyfyngiado ran awyru neu anadlu? ☐ OEDD ☐ NAC OEDD

Sylwadau:

Oedd unrhyw risg o fygu? ☐ OEDD ☐ NAC OEDD

Sylwada u:

Oedd unrhyw beryglon posibl? ☐ OEDD ☐ NAC OEDD

Sylwadau:

Oedd unrhyw dystiolaeth ofal esgeulus? ☐ OEDD ☐ NAC OEDD

Sylwadau:

Diagram o’r Lleoliad

Tynnwch lun o'r lleoliad gan gynnwys cyfeiriadedd Gogledd/De, mesuriadau’r ystafell, lleoliad drysau, ffenestri, gwres, unrhyw ddodrefn a gwrthrychau yn yr ystafell.

Atodiad 5:
Ffurflen Hysbysu am Farwolaeth Plentyn

MARWOLAETHAU ANNISGWYL: I'w chwblhau gan Gadeirydd y Cyfarfod Trafod Achos (neu ei ddirprwy) a chopi wedi'i gyflwyno i'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant a Rheolwr Busnes y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.

MARWOLAETHAU DISGWYLIEDIG: I'w chwblhau gan y meddyg sy'n cadarnhau ffaith y farwolaeth a gan gyflwyno copi i Raglen Adolygu Marwolaethau Plant

NODER. Cwblhewch gymaint o fanylion â phosibl, fodd bynnag, efallai na fydd pob adran yn berthnasol - os felly, gadewch yn wag.

A. MANYLION ADRODD: (Eich Manylion)

Dyddiad Cwblhau	☐ ■ ■ ■ ■ ■ ■ ■ ■ DIWRNOD MIS BLWYDDYN
Rhif Goruchwyliaeth Bediatrig Cymru (os yw'n berthnasol)	
Enw llawn a rôl	
Sefydliad	
Cyfeiriad e-bost	

B. MANYLION Y PLENTYN

Enw llawn y plentyn	
Dyddiad geni	☐ ■ ■ ■ ■ ■ ■ ■ ■ DIWRNOD MIS BLWYDDYN
Rhif GIG	

Cyfeiriad cartref
(preswylfa arferol y plent,Jn

Cod post

Rhyw | GW RY | BENYW

Grwp Ethnig

[redacted]d y plentyn ar y Gofre[redacted]Amddiffyn P[redacted]?

| Ar adeg y farwolaeth | Yn fl aeno ro l | Ddim o gwbl

[redacted]d y plentyn yn "Blenty[redacted]y'n Derbyn G[redacted]l"?

| Ar adeg y farwolaeth | Yn fl aenorol | Ddim o gwbl

Os oedd, ym mha awdurdod lleol?

Oedd y plentyn yn derbyn unrhyw wasanaethau ychwanegol?

[redacted] o Amgylch y Teulu (TA[redacted]

| Ar adeg y farwolaeth | Yn fl aenorol | Ddim o gwbl

[redacted]asanaeth Integredig C[redacted]orth i Deuluo[redacted]l

| Ar adeg y farwolaeth | Yn fl aeno ro l | Ddim o gwbl

[redacted]chrau'n

| Ar adeg y farwolaeth | Yn fl aeno ro l | Ddim o gwbl

Teuluoedd yn

[redacted] | Ar adeg y farwolaeth [redacted] | Yn fl aenorol [redacted] | Ddim o gwbl

---

C. MANYLION Y FARWOLAETH

Dyddiad y Farwolaeth DIWRNOD MIS BLWYDDYN

Amser y farwolaeth

Ble ddigwyddodd y digwyddiad a arweiniodd at y farwolaeth? Gartref Ysbyty Arall

Cyfeiriad y digwyddiad
(os yn yr ysbyty neu arall)?

Ble cafodd y farwolaeth ei chadarnhau? Gartref Ysbyty Arall

---

w'r farwolaeth hon wedi'i hatgyfeiri gyfer unrhyw fath arall o adolygiad?

- Adolygiad ymarfer plant
- Morbidrwydd/marwolaeth yn yr ysbyty
- Adolygiad dynladdiad domestig
- Vmchwiliad troseddol

A yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am Y farwolaeth fel digwyddiad difrifol? YDY NAC YDY
(fel y'i diffinnir yn adran 9.2 o Gweithio i Weila)

A oes tystysgrif feddygol o achos marwolaeth wedi'i chyhoeddi? OES NAC OES

Os oes, nodwch achos y farwolaeth

Os nae oes, beth yw eich dealltwriaeth chi o achos y farwolaeth?

Oedd y farwolaeth yn ddisgwyliedig? OEDD NAC OEDD

A oedd cynllun gofal (diwedd oes) ymlaen llaw yn ei le? OEDD NAC OED NID YW'N HYSBYS

A oes PRUDiC wedi'i roi ar waith? OES NAC OES

Diffinnir marwolaeth annisgwyl fel marwolaeth plentyn nasrhagwelir fel posibilrwydd arwyddocaol 24 awr cyn y farwolaeth neu lle roedd yna gwymp annisgwyl a oedd wedi arwain at neu achosi'r digwyddiadau a arweiniodd at y farwolaeth.

OI

Os do, nodwch y dyddiad a adroddwyd ac enw Crwner EF?

DIWRNOD MIS BLWYDDYN

Dyddiad a lleoliad y post mortem

DIWRNOD MIS BLWYDDYN

A oes cwest wedi'i gynnal? OES NAC OES

D. PROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD

Dewiswch bopeth yr ydych yn ymwybodol ohono mewn perthynas â chefndir cymdeithasol y plentyn

- cam-drin geiriol
- cam-drin corfforol
- cam-drin rhywiol
- trais domestig yn y cartref
- salwch meddwl yn y cartref
- cam-drin alcohol yn y cartref
- defnydd o gyffuriau yn y cartref
- aelod o'r cartref yn y carchar
- materion iechyd corfforol yn y cartref
- anabledd yn y cartref {Yn cynnwys anabledd dysgu}
- esgeulustod

A oedd y plentyn yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau gofalu? OEDD NAC OEDD

Os oedd, i bwy? RHIANT BRAWD ARALL

E. NARATIF O'R AMGYLCHIADAU A'R HANES

Cofnodwch:

Yr amgylchiadau a arweiniodd at y farwolaeth:

Hanes perthnasol o'r gorffennol:

Amgylchiadau cymdeithasol a theuluol perthnasol:

Unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Cwblhewch yr adran berthnasol ar y dudalen nesaf ar gyfer:

- Marwolaeth sydyn annisgwyl yn ystod babandod
- Marwolaethau o ganlyniad i foddi
- Marwolaethau o ganlyniad i hunanladdiad
- Marwolaethau mewn cerbydau
- Marwolaethau o ganlyniad i dan

F. FFACTORAU Y GELLIR BOD WEDI EU HADDASU - cofnodwch a oedd unrhyw un o'r ffactorau canlynol yn bresennol

Marwolaeth Annisgwyl Sydyn mewn Babandod (dan 2 oed)

Cyd-gysgu ar adeg y farwolaeth			NID YW'N HYSBYS
Cysgu ar y soffa ar adeg y farwolaeth	O ED D	OED NAC - OED	NID YW'N HYSBYS
Rhieni yn ysmygu	YDYN	NAC YDYN	NID YW'N HYSBYS
Salwch yn y plentyn yn yr wythnos cyn y farwolaeth	O ED D	NAC - OED	NID YW'N HYSBYS
Hanes o rieni'r defnyddio cyffuriau	OES	NAC OES	NID YW'N HYSBYS
Rhieni yn defnyddio alcohol ar adeg y farwolaeth neu bryder blaenorol o hynny	YDYN	NA C YDYN	NIDYW'N HYSBYS

Boddi

Yn gallu nofio			
Posibilrwydd o fod wedi yfed alcohol	OES	NAC	NID YW'N
Diffyg goruchwyliaeth	OEDD	OES NAC OEDD	HYSBYS NID YW'N HYSBYS

Marwolaethau mewn Cerbydau

Defnyddio gwregys diogelwch (neu sedd car priodol)			
Gyrru yn y nos	O ED D	NAC OEDD	NID YW'N HYSBYS
Gyrru dros y terfyn alcohol gwaed cyfreithlon	O ED D	NAC OEDD	NID YW'N HYSBYS

Hunanladdiad

Yn hysbys i CAMHS	[redacted]	OED	HYSBYS
Yn hysbys i'r gwasanaethau troseddau ieuenctid	OEDD	NAC OEDD	NID YW'N HYSBYS
Hanes o Gam-drin alcohol	OES	NA C OES	NIDYW'N HYSBYS
Hanes o gamddefnyddio cyffuriau	OES	NA C OES	NIDYW'N HYSBYS
Bwlio	OES	NAC OES	NID YW'N HYSBYS

Tan

Larwm mwg gweithredol yn y ty	OES	NAC OES	NID YW'N HYSBYS

CAMAU NESAF

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau wedi'i diogelu gan gyfrinair at Reolwr Busnes y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant:

E-bost: Atodiad e-bost at ChildDeath.Review@wales.nhs.uk

Post: TTm Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith
lechyd Cyhoeddus Cymru
Sed Llawr Capital Quarter 2
Stryd Tyndall
Caerdyd
CFlO 4BQ

Atodiad 6:
Templed Crynodeb o Achos

I'w gwblhau gan y Cadeirydd (neu'r dirprwy) yn y Cyfarfod Adolygu Achos a'i anfon ymlaen i Reolwr Busnes y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant.

Enw'r Plentyn:

Dyddiad geni: DIWRNOD BLWYDDYN

Dyddiad DIWRNOD BLWYDDYN

Cyfeiriad:

Rhif GIG:

Achos y Farwolaeth

Manylion:

Crynodeb o'r Achos

Manylion:

Ffactorau Cyfrannol

Ffactorau sy'n gynhenid i'r plentyn:

Dylech gynnwys unrhyw anghenion iechyd hysbys; ffactorau dylanwadol ar iechyd; materion datblygiad/addysg; materion ymddygiad; perthnasoedd cymdeithasol; hunaniaeth ac annibyniaeth; cam-drin cyffuriau neu alcohol; nodwch gryfderau ac anawsterau.

Rhowch wybodaeth berthnasol:

Yr amgylchedd cymdeithasol gan gynnwys y teulu a'r gallu i fagu plant.

Dylech gynnwys y strwythur a'r gweithrediad teuluol: y ddarpariaeth o ofal sylfaenol; gofal iechyd (gan gynnwys gofal cyn geni lie bo'n berthnasol); diogelwch; unrhyw dystiolaeth o gam-drin neu esgeulustod presennol neu flaenorol; cynhesrwydd emosiynol; ysgogiad; canllawiau a ffiniau; sefydlogrwydd; rhieni'n cam-drin cyffuriau neu alcohol; perthnasoedd teuluol ehangach; cyflogaeth ac incwm; integreiddio/cymorth cymdeithasol; amgylchedd meithrin/cyn ysgol neu ysgol.

Rhowch wybodaeth berthnasol:

Amgylchedd ffisegol:

Cynhwyswch beryglon hysbys sy'n ymwneud a'r amgylchedd allanol mewn perthynas ag anafiadau cyffredin yn ystod plentyndod oherwydd llosgiadau a/neu gwympiadau; damweiniau traffig ffyrdd; materion yn ymwneud a mesurau diogelwch yn y cartref.

Rhowch wybodaeth berthnasol:

Darpariaeth Gwasanaethau:

Dylia cynnwys unrhyw wasanaethau a nodwyd (naill ai gwasanaethau angenrheidiol neu a ddarparwyd); unrhyw fylchau rhwng anghenion y plentyn neu aelod o'r teulu a darpariaeth gwasanaethau; unrhyw faterion yn ymwneud a darpariaeth gwasanaeth, mynediad at wasanaeth, neu ddefnydd o wasanaeth.

Rhowch wybodaeth berthnasol:

Nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol arall yr hoffech ei rhannu:

Atodiad 7:
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)

Ymateb Gweithdrefnol WAST i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC)

Rhaid i'r Ganolfan Cyswllt Clinigol Ambiwlans (CCC) hysbysu'r Heddlu ar unwaith pan dderbynnir galwad yn nodi marwolaeth annisgwyl bosibl plentyn.

Dylai Staff Meddygol Brys sy'n mynychu:

a) Asesu'r claf yn unol â Chanllawiau Clinigol JRCALC a Pholisïau WAST

b) Darparu'r holl ymyriadau clinigol fel y nodir

c) Rhybuddio'r Adran Achosion Brys ymlaen llaw gan roi amcangyfrif o amser cyrraedd a chyflwr y claf.

d) Cludo'r plentyn i'r Adran Achosion Brys priodol agosaf.

e) Nodi'r lleoliad y babi neu'r plentyn pan ddaethpwyd o hyd iddo.

f) Nodi unrhyw anaf ac unrhyw esboniad a gynigir.

g) Trosglwyddo'r holl wybodaeth berthnasol i'r clinigwyr yn yr Adran Achosion Brys a sicrhau bod yr Heddlu hefyd yn cael gwybod am unrhyw amgylchiadau amheus.

h) Cwblhau Cofnod Clinigol y Claf yn llawn fel cofnod o bresenoldeb, rheolaeth glinigol ac arsylwadau o'r lleoliad.

- Hyd yn oed os yw'r farwolaeth wedi'i phennu yn lleoliad y digwyddiad, dylai staff ambiwlans gludo'r plentyn/person ifanc i'r Adran Achosion Brys yn hytrach nag i'r marwdy, oni bai bod y plentyn yn amlwg wedi marw **A** bod amgylchiadau amheus lle gallai symud y corff o'r lleoliad olygu bod tystiolaeth yn cael ei cholli.

- Gellir cludo i'r corffdy mewn amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig yn ddiamheuol â'r farwolaeth ac y bernir ei bod yn amhriodol cludo i'r Adran Achosion Brys, megis pen wedi torri, dadelfeniad, llosgi ac ati.

- Byddai arfer gorau yn argymell bod staff ambiwlans yn cael cadarnhad y bydd yr Heddlu'n hysbysu'r Nyrs sy'n Gyfrifol yn yr Adran Achosion Brys os yw'r plentyn yn cael ei gludo'n uniongyrchol i'r marwdy er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu rhoi ar waith.

- Y prif reswm dros fynd â'r plentyn/person ifanc i'r Adran Achosion Brys yn hytrach na'r marwdy yw y gall y Pediatregydd (neu feddyg â'r hyfforddiant a'r cymhwysedd priodol)

wneud archwiliad ar unwaith a gall rhieni/gofalwyr siarad â'r Pediatregydd (neu'r meddyg gyda'r hyfforddiant a chymhwysedd priodol) gael cymorth profedigaeth.

- Os oes amgylchiadau amheus ynghylch marwolaeth y plentyn, bydd yr Heddlu'n penderfynu ar y camau nesaf ac yn hysbysu'r criw ambiwlans (dylai'r penderfyniad hwn gael ei nodi ar Gofnod Clinigol y Claf (PCR)).

- Os yw'r archwiliad o'r lleoliad yn awgrymu cyfnod hir o amser cyn i'r plentyn gael ei ryddhau o'r lleoliad, gofynnwch am gadarnhad gan Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu (SIO) a oes angen ambiwlans i'w gludo i'r Adran Achosion Brys o hyd neu a oes cynllun arall yn bodoli. (Staff WAST i gofnodi'r drafodaeth, y penderfyniad a nodi swyddog(ion) Heddlu sy'n ymwneud â'r PCR).

- Dylai'r gweithiwr proffesiynol cyntaf i gyrraedd y lleoliad (e.e. Ambiwlans, Meddyg Teulu) nodi lleoliad y plentyn, y dillad a wisgir a'r amgylchiadau o ran sut y daethpwyd o hyd i'r plentyn.

- Os yw'r amgylchiadau'n caniatáu, dylid nodi unrhyw sylwadau a wnaed gan y gofalwyr, unrhyw hanes cefndirol, unrhyw gamddefnydd posibl o gyffuriau ac amodau'r lle byw.

- Rhaid i unrhyw wybodaeth neu bryderon o'r fath gael eu trosglwyddo i'r meddyg sy'n derbyn, yr Heddlu a'r Pediatregydd Ymgynghorol (neu feddyg â hyfforddiant a chymhwysedd priodol).

- Dylid hysbysu'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol am unrhyw bryderon diogelu ar gyfer plant a/neu oedolion sy'n wynebu risg sy'n gysylltiedig â digwyddiad drwy broses ddiogelu WAST.

- Bydd tîm Diogelu WAST yn ystyried yr angen i adrodd Digwyddiad Adroddadwy yn Genedlaethol i Lywodraeth Cymru yn unol â chanllawiau 'Gweithio i Wella'.

Ymateb Gweithdrefnol WAST i Farwolaethau Annisgw
Plentyndod (PRUDiC)

CCC Ambiwlans yn derbyn galwad 999 sy'n ymwneud â marwolaeth annisgwyl/ anesboniadwy sydyn plentyn/person ifanc o dan 18 mlwydd oed

Staff gwasanaethau me
yn mynychu digwyd
plentyn/person ifanc
galon wedi

Staff EMS i roi adroddi
Ambiwla

CCC Ambiwlans i hysbysu'r Heddlu o'r digwyddiad ar unwaith

Wrth gyrraedd y lleoliad, asesu'r plentyn/person ifanc yn unol â Chanllawiau Clinigol JRCALC a Pholisïau WAST

A yw'r cyflwr yn gysylltiedig yn ddiamheuol â'r farwolaeth neu a oes cynllun diwedd oes dilys ar waith?

YDY

NAC YDY

Ystyried Canllawiau Clinigol JRCALC (*Termination of Resuscitation and Verification of Death in Children)* a/neu gynllun diwedd os oes un yn bresennol

• Dadebru yn yn u
Clinigol JRCALC

• Cludo i'r Adran A
briodol gyda rhagr

• Nodi'r lleoliad a
plentyn pan ddae

• Nodi unrhyw ana
esboniad a gynigir

• Trosglwyddo'r h
berthnasol i'r clini
Achosion Brys a si
hefyd yn cael gwy
amgylchiadau amh

• PCR i'w gwblhau
o bresenoldeb, rh
arsylwi'r lleoliad

• Tîm Diogelu yn
fel Digwyddiad Ad
Genedlaethol

Oes yna amgylchiadau amheus?

OES

NAC OES

• Cludo i'r Adran Achosion Brys agosaf priodol oni bai mewn amgylchiadau eithriadol:(e.e. pen wedi torri, wedi dadelfennu, wedi llosgi ac ati)
• Gofyn am gyngor gan uwch swyddog ymchwilio'r Heddlu
• Os yw'r corff yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i gorffdy, cadarnhau y bydd yr Heddlu y'n hysbysu'r Nyrs sy'n Gyfrifol yn yr Adran Achosion Brys a dogfennu hyn ar y PCR)
• Cwblhau pob dogfennaeth angenrheidiol a chynnwys manylion y cynllun diwedd oes os oes un

Gadael y plentyn yn y fan a'r lle a chysylltu ag Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu i gadarnhau os oes angen WAST ar gyfer y cludo
Sicrhau fod y penderfyniad a manylion yr uwch swyddogion ymchwilio yn cael eu cofnodi ar y PCR

Atodiad 8: Rôl yr Heddlu

Y canllawiau perthnasol ar gyfer yr Heddlu yw Canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ar Ymchwilio i Farwolaethau Babanod. Rhaid cyfeirio at y canllawiau llawn yn ystod ymchwiliad. Mae'r canllawiau hyn ar gael o fewn yr Heddlu ac yn Llawlyfr Ymchwiliadau Llofruddiaeth 2016 (CD-ROM darllen atodol).

Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffordd

Mewn gwrthdrawiad traffig ar y ffordd, byddai Swyddog Plismona Digwyddiadau Difrifol ar y Ffyrdd yn cymryd cyfrifoldeb am yr ymchwiliad oni bai bod amheuaeth o ymddygiad troseddol a bod Swyddog Digwyddiadau Troseddau Difrifol yn cael ei neilltuo i'r achos. Mewn achosion o'r fath, bydd Swyddog Plismona Digwyddiadau Difrifol ar y Ffyrdd yn cyflawni rôl y Swyddog Digwyddiadau Difrifol ac yn ceisio arweiniad priodol gan gydweithwyr yn ôl yr angen i gwrdd ag anghenion yr amgylchiadau a gyflwynir.

Marwolaeth Annisgwyl Sydyn Mewn Babanod a Phlentyndod[10]

Fel Cadeirydd gweithgor ar ofal ac ymchwiliad i farwolaeth sydyn annisgwyl mewn babandod a phlentyndod, dywedodd y Farwnes Kennedy:

> *'Mae angen cymorth sensitif ar rieni sy'n dioddef trasiedi ofnadwy i'w helpu i ymdopi â'u colled. Mae gan bob teulu hawl i gael ymchwiliad priodol i farwolaeth eu babi. Mae teuluoedd yn awyddus iawn i wybod beth ddigwyddodd, sut y gallai'r digwyddiad fod wedi digwydd, beth oedd achos y farwolaeth ac a ellid bod wedi'i atal.*
>
> *Mae hyn yn bwysig o ran galaru ond mae hefyd yn berthnasol i bryder mawr y teulu am feichiogrwydd yn y dyfodol a gall amlygu phroblem sylfaenol gudd, megis problem enetig. Ac os bydd baban arall yn marw'n sydyn yn y teulu, mae ymchwiliadau gofalus i farwolaeth gynharach hefyd yn helpu i atal camweinyddu cyfiawnder.'*

Mae'r canllawiau hyn yn adnodd defnyddiol i'r Heddlu ac yn cynnwys atodiadau i gefnogi'r Heddlu yn eu prosesau ymchwiliol.

[10] *Sudden unexpected death in infancy and childhood: multi-agency guidelines for care and investigation*. 2il argraffiad, Tachwedd 2016

Atodiad 9:
Rôl Crwner EF yn y PRUDiC

Rhaid hysbysu Crwner EF am unrhyw farwolaeth, y mae ei hachos yn ymddangos fel petai'n anhysbys neu'n ymddangos fel petai'n annaturiol, neu mewn rhai amgylchiadau penodol eraill, a bydd yn gorchymyn ymchwiliad i amgylchiadau ac achos y farwolaeth honno. Ar ôl i farwolaeth gael ei datgan, mae Crwner EF yn cael rheoli'r corff hyd nes y bydd yn ei ryddhau. Os oes ymchwiliad i'w agor, yna dyna'r adeg y caiff y corff ei ryddhau gan Grwner EF fel arfer.

Bydd Swyddog Crwner EF yn hysbysu'r teulu am rolau a gweithdrefnau Crwner EF ac yn rhoi gwybod i'r teulu am leoliad y plentyn nes bod Crwner EF wedi llofnodi'r gwaith papur rhyddhau ar gyfer y plentyn ar agoriad y cwest. Mae'n bwysig mai dim ond Swyddog Crwner EF sy'n rhannu'r wybodaeth hon oherwydd gallai unrhyw wybodaeth anghywir achosi trallod ychwanegol i'r teulu.

Fel yr awdurdod cyfreithiol sy'n gyfrifol am ymchwilio ac ardystio pob marwolaeth annisgwyl, rhaid hysbysu Crwner EF am yr holl wybodaeth arwyddocaol a geir o'r cyfathrebiadau aml-asiantaeth a chyfweliadau â rhieni.

Mae Crwner EF, fel arfer drwy Swyddog Crwner EF, yn gyfrifol am hysbysu'r teulu am ba samplau o organau a/neu feinweoedd sydd wedi'u cadw er mwyn gallu trafod opsiynau ar gyfer gwaredu. Rhaid rhoi gwybod i'r Patholegydd a Chrwner EF am ddymuniadau'r teulu ynghylch gwaredu.

Bydd y PRUDiC yn cael ei weithredu ym mhob achos o farwolaeth annisgwyl yn ystod plentyndod yn ogystal ag mewn unrhyw ymchwiliad crwnerol. Bydd cadeirydd pob cyfarfod PRUDiC yn hysbysu Crwner EF am unrhyw wybodaeth berthnasol a rennir ac mewn rhai achosion, bydd Swyddog Crwner EF yn dewis bod yn bresennol yn y cyfarfod(ydd).

Atodiad 10: Adnoddau

Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) 2016
Guidelines on Infant Death: Murder Investigation Manual

Gweithdrefnau Diogelu Cymru https://diogelu.cymru/cy/

Cynllun PAC Cymru Gyfan https://www.paedpallcarewales.com/pac-planningg

Rhaglen Adolygu Marwolaethau ymhlith Plant https://icc.gig.cymru/

Canllawiau i weithwyr proffesiynol | Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (hta.gov.uk)
https://www.hta.gov.uk/guidance-professionals

***Sudden unexpected death in infancy and childhood: multi-agency guidelines for care and investigation*. 2il argraffiad, Tachwedd 2016** (Adroddiad Kennedy)
https://www.rcpath.org/resourceLibrary/sudden-unexpected-death-in-infancyand-childhood-report.html

Gweithio i Wella Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddelio â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011, Fersiwn 3 Tachwedd 2013 https://www.gig.cymru

***The radiological investigation of suspected physical abuse in children* | Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (rcr.ac.uk)**
https://www.rcr.ac.uk/publication/radiological-investigation-suspected-physicalabuse-children

Joint Statement on Eye Examination in Sudden Unexpected Death in Children
https://www.rcpch.ac.uk/news-events/news/joint-statement-eye-examinationsudden-unexpected-death-children

Cysylltiadau SARC (Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol).

- De Cymru: Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Ynys Saff
  https://bipcaf.gig.cymru/ein-gwasanaethau/iechyd-rhywiol/gwasanaethau-a-ddarperir/canolfan-cyfeirio-ymosodiadau-rhywiol-ynys-saff/

  Ffôn: 029 2033 5533

- Gogledd Cymru: Gogledd Cymru: Dylid cyfeirio ymholiadau at y Meddyg a Enwir dros Ddiogelu Plant, a fydd yn eu dosbarthu i'r Pediatregydd priodol

Adolygu Marwolaethau Plant, Timau Adolygu (Lloegr)
https://www.gov.uk/government/publications/child-death-overview-panels-contacts

Hyb Cenedlaethol ar gyfer Adolygu a Dysgu o Farwolaethau Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban): his.cdrnationalhub@nhs.scot

Gogledd Iwerddon
Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd sinead.magill@hscni.net

Llwybr Profedigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Marwolaethau Sydyn ac Annisgwyl Plant ac Oedolion Ifanc:

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/8/5/1660308219/marwolaethau-sydyn-ac-annisgwyl-plant-phobl-ifanc-hyd-25-oed-llwybr-cymorth.pdf